Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 28ain Ionawr, 2020 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH |
| **PWYNT CYSWLLT** | Annes Siôn<br>01286 679490<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig L. Siencyn | Arweinydd |
| Dafydd Meurig | Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai |
| Gareth Wyn Griffith | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Nia Wyn Jeffreys | Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Cyllid |
| Catrin Wager | Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol |
| Cemlyn Rees Williams | Aelod Cabinet Addysg |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | ADRODDIAD PERFFORMIAD YR ARWEINYDD A DIRPRWY ARWEINYDD AR Y BYRDDAU RHAGLEN | Cyng. Dyfrig Siencyn a'r Cyng. Dafydd Meurig | Dilwyn Williams a Morwena Edwards | 4 - 7 |
| 6 | ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS GEFNOGAETH CORFFORAETHOL A CHYFRIETHIOL | Cyng. Nia Jeffreys | Dilwyn Williams | 8 - 23 |
| 7 | ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS BRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL AC YMGYNGHORIAETH GWYNEDD | Cyng. Catrin Wager | Dilwyn Williams | 24 - 35 |
| 8 | ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS BLANT A CEFNOGI TEULUOEDD | Cyng. Dilwyn Morgan | Morwena Edwards | 36 - 43 |
| 9 | ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABIENT DROS ADDYSG | Cyng. Cemlyn Williams | Dilwyn Williams | 44 - 51 |
| 10 | ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS DAI AC EIDDO | Cyng. Craig ab Iago | Dilwyn Williams | 52 - 62 |
| 11 | TROSOLWG ARBEDION 2019/20 - ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION | Cyng. Ioan Thomas | Dafydd Edwards | 63 - 72 |

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 28 Ionawr 2020 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd ar y Byrddau Rhaglen |
| **Pwrpas:** | Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorwyr Dyfrig Siencyn a Dafydd Meurig |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr a Morwena Edwards, Cyfarwyddwraig Corfforaethol |

## 1 CYFLWYNIAD

1.1 Yn sgil ei ddyhead i gymryd agwedd trawsffurfiol i faes cefnogi pobl ac adfywio ac yn wyneb natur draws adrannol y meysydd yma, mae'r Cabinet wedi sefydlu dau fwrdd rhaglen i ddod a'r holl adrannau perthnasol ynghyd er mwyn ystyried beth sydd angen ei wneud yn y meysydd dan sylw.

1.2 Mae'r Bwrdd Adfywio yn cwrdd dan arweiniad yr Arweinydd a'r Bwrdd Cefnogi Pobl yn cwrdd dan arweiniad y Dirprwy Arweinydd.

1.3 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru'r Cabinet ar ble mae'r ddau fwrdd wedi cyrraedd. Gan dderbyn fod rhai aelodau'r cabinet eisoes ar y Byrddau yma, mae adrodd i'r Cabinet yn rhoi cyfle i weddill yr aelodau fod yn fyw i'r hyn sy'n digwydd gan roddi cyfle i arsylwi ar gynnydd neu ddylanwadu ar y cyfeiriad.

## 2 Y BWRDD ADFYWIO

2.1 Daeth y Bwrdd Adfywio i fodolaeth yn sgil y dyhead i gymryd agwedd mwy cydlynol ar y pethau yr ydym yn eu gwneud i adfywio ein cymunedau.

2.2 Yn hyn o beth, yr hyn sydd gennym dan sylw wrth son am "adfywio" yw'r gweithgareddau hynny sydd yn dod a chymuned yn agosach at y darlun delfrydol hwnnw o sut yr hoffem i'r gymuned fod.



**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

2.3 Yn hanesyddol, rydym wedi bod yn gwneud hyn drwy'r "seilos" adrannol heb feddwl a oes modd cydgysylltu rhain yn agosach at ei gilydd fel bod gennym un darlun o'r hyn yr ydym yn anelu amdani ar gyfer cymuned benodol a phawb yn anelu at wireddu'r darlun honno.

2.4 O sefydlu'r fath ddarlun byddem hefyd yn gallu sicrhau pe cyfyd cyfle i fuddsoddi drwy grantiau neu adnoddau'r Cyngor, bod y buddsoddiad hwnnw yn cyflawni yr hyn yr ydym yn dymuno ei weld yn hytrach na chael ei arwain gan amcanion cynllun grant penodol.

2.5 Yn y pen draw 'rydym yn anelu at gael darlun clir ar gyfer cymunedau unigol o sut y byddai'r gymuned unigol yn edrych yn ddelfrydol a beth fyddai angen ei wneud (y cynllun adfywio) er mwyn cyrraedd y nod honno. Yn amlwg byddai angen sicrhau perchnogaeth y cymunedau hynny at unrhyw gynllun – nid cynllun adfywio'r Cyngor ddylai fod ond cynllun adfywio'r gymuned ei hun.

2.6 Hyd yma rydym wedi diffinio'r ardaloedd fyddai'n gallu creu sylfaen ar gyfer ein darluniau. Hanfod hyn yw y bydd yn rhaid i'r ardaloedd hynny fod yn wir "gymuned" yng ngolwg y bobl sydd yn byw ynddynt (neu fel arall ni fyddant yn golygu unrhyw beth) ac mae'r Bwrdd wedi dod i gasgliad ei fod yn debygol fod angen 13 ardal yn hytrach na'r 8 a ddiffinnir yng Nghynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

2.7 Mae gwaith wedyn yn mynd ymlaen ar hyn o bryd i ddiffinio nodweddion ystadegol yr ardaloedd yma gyda golwg maes o law ar ddiffinio sut ddarlun yr hoffem weld ar gyfer yr ardal honno gyda golwg ar gael rhywbeth i'w drafod gyda'r gymuned dan sylw (a phenderfynu sut y byddem yn gwneud hynny).

2.8 Bydd y broses o ymgysylltu gyda'r cymunedau felly yn allweddol bwysig ar gyfer adnabod blaenoriaethau lleol. Maes o law, y bwriad yw datblygu cynlluniau penodol ar gyfer pob un o'r 13 ardal, gan hefyd ystyried trefniadau trawsadrannol effeithiol ar draws y Cyngor. Rhagwelir y bydd gan aelodau lleol ac eraill (e.e. busnesau lleol; cyrff sy'n gweithredu o fewn y gymuned) gyfraniad pwysig yn natblygiad a gweithrediad y cynlluniau hyn ac mae gwaith pellach i'w wneud ar gyfer datblygu'r trefniadau arfaethedig.

## 3 BWRDD CEFNOGI POBL

3.1 Y rheswm dros sefydlu'r Bwrdd Cefnogi Pobl oedd y bwriad i geisio edrych ar drefniadau'r Cyngor o ran cynnig cefnogaeth i bobl Gwynedd sydd angen cymorth o ryw fath, gan wneud hyn drwy edrych drwy lygad pobl Gwynedd eu hunain.

3.2 Yr hyn oedd dan sylw yma oedd ystyried yn gyntaf pa fath o gefnogaeth sydd yn cael ei gynnig ar hyn o bryd, gan edrych hefyd os oedd y gefnogaeth yma yn cwrdd â'r hyn oedd pobl Gwynedd ei angen, ac a oedd yn cael ei gynnig ar yr adeg gywir ac yn y ffordd fwyaf addas.

3.3 Mae gwaith mapio'r holl wasanaethau yma yn cael ei wneud ac yn cyrraedd pwynt lle mae darlun eithaf clir o'r hyn sydd yn cael ei gynnig gan adrannau'r Cyngor. Yn ogystal, mae rheolwyr yr unedau hyn wedi cychwyn ar fapio eu prosesau gwaith o ran cefnogi pobl, hynny yw, sut mae cael mynediad at y gwasanaeth, beth yw'r broses cyfeirio (os oes yna un), oes criteria ar gyfer cael gwasanaeth ac yn y blaen. Y bwriad ydi dod a'r wybodaeth yma i gyd ynghyd er mwyn creu darlun cynhwysfawr.

3.4 Beth sydd wedi dod yn amlwg yw ein bod yn sicr yn cynnig nifer fawr o wasanaethau ar gyfer cefnogi pobl yng Ngwynedd, ond bod y gwasanaethau hyn yn cael eu cynnig er mwyn helpu gyda materion unigol a phenodol e.e. problemau talu rhent, problemau alcohol. Mae'r math unigol yma o gefnogaeth hefyd yn cael eu darparu gan unedau penodol ac yn aml nid oes cysylltiad rhwng gwahanol unedau sydd yn cefnogi unigolion a theuluoedd gyda materion gwahanol.

3.5 Yn ogystal, er mwyn ceisio dod a'r gwaith mapio yn fyw i aelodau'r Bwrdd, mae ambell "stori" wedi eu darlunio o achosion go iawn. O'r storïau cyntaf, beth sydd yn dod yn amlwg yw'r ffordd mae problemau pobl yn cael eu trin ar wahân, a bod yna ddim un person yn cefnogi'r unigolyn ac yn gallu drwy hynny ddal y trosolwg o'r person. Ymddengys nad yw unedau/gwasanaethau gwahanol yn ymwybodol yn aml fod uned neu wasanaeth arall yn helpu'r un unigolyn. Yn ogystal, gwelwyd nad oedd neb yn wir gyfrifol am lesiant yr unigolyn fel person, ond yn hytrach bod eu bod yn canolbwyntio ar ddatrys darn hwy o'r broblem. O ran yr unigolyn, nhw, neu eu teulu, oedd yn ymddangos yn ceisio gwneud eu ffordd drwy ein prosesau /systemau gwaith.

3.6 Y cam nesaf i'r Bwrdd fydd defnyddio'r wybodaeth sydd wedi ei gasglu i gefnogi ni i gynllunio beth fyddai'r siwrne ddelfrydol i berson yng Ngwynedd sydd angen cymorth/cefnogaeth gennym fel Cyngor. Byddwn yn ceisio sicrhau ein bod yn gwneud hyn drwy ddefnyddio egwyddorion Ffordd Gwynedd, o ran rhoi'r person yn ganolog. Drwy ddod fyny efo'r darlun delfrydol yma byddwn yn ystyried os oes ffordd well o drefnu ein hunain fel unedau/gwasanaethau, os oes angen defnyddio systemau TG yn wahanol, i enwi rhai.

3.7 Unwaith y byddwn wedi dod i gasgliad, y bwriad fydd arbrofi rhywfaint gydag ambell newid i geisio gweld a chasglu tystiolaeth os yw'r system newydd yn rhoi gwell profiad a chanlyniad i'r unigolion.

3.8 Mae’r Bwrdd Cefnogi Pobl wedi cymryd trosolwg yn ogystal o’r newidiadau arfaethedig yn ymwneud a’r Grant Cefnogi Pobl. Y bwriad ydi defnyddio’r dysgu o’n gwaith i lywio y ffordd mae’r Cyngor yn symud ymlaen gyda’r defnydd o’r arian i’r dyfodol.

---

**Barn y Swyddogion Statudol:**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i’w hychwanegu ynglŷn â phriodoldeb

**Y Pennaeth Cyllid:**

Nid oes ymrwymiad gwariant ynghlwm â’r adroddiad yma. Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol

.

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 28 Ionawr 2020 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol a Chyfreithiol |
| **Pwrpas:** | Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Nia Jeffreys |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Cefnogaeth Gorfforaethol a Chyfreithiol. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023, lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Hoffwn eich atgoffa bod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o dîm rheoli'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol a thim rheoli'r Gwasanaeth Cyfreithiol, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Pwyllgorau Craffu.

1.3 Y prif faterion yr hoffwn dynnu eich sylw atynt yw'r:

- **Cynllun Cydraddoldeb** – fe wnaeth y Cabinet gyhoeddi drafft o Gynllun Cydraddoldeb Cyngor Gwynedd 2020-2024 yn dilyn ei gyfarfod ar 26 Tachwedd er mwyn ymgynghori'n gyhoeddus ar ei gynnwys. Fe fuaswn yn annog pob aelod o'r Cyngor a'r cyhoedd i ymateb iddo a gallwch wneud hynny ar-lein yma.
- **Digwyddiadau Gwybodaeth** – gan fod y nifer o ddigwyddiadau lle mae gwybodaeth am unigolion wedi ei ddwyn/colli/mynd i'r cyfeiriad anghywir wedi cynyddu, rwyf yn falch bod gwaith ar droed i edrych ar bolisiau'r gweithlu er mwyn i'r Cyngor chwilio yn sefydliadol am ymateb i'r achosion hyn i'r dyfodol.
- **Bathodynnau Glas** – yn dilyn adolygiadau o'r trefniadau i adolygu ceisiadau, rwy'n falch fod y gwasanaeth wedi gallu lleihau'r amser a gymer i brosesu o 40%. Buom fel Cyngor hefyd yn cynorthwyo



**Cyswllt:**
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru i sicrhau fod yr holl broses ymgeisio ar gael drwy'r Gymraeg a'r Saesneg.

- **Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch** – roedd yn anffodus bod dau digwyddiad diogelwch wedi codi mewn un adran dros y cyfnod hwn, gan olygu bod angen i'r Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch ganolbwyntio eu sylw ar drefniadau'r adran honno er mwyn sicrhau na fyddai'r un sefyllfa'n codi eto.
- **Cyfreithiol** – hoffwn gydnabod ei bod hi wedi bod yn gyfnod prysur iawn eto i'r uned etholiadau, sydd wedi gorfod gweinyddu nifer ddi-gynsail o etholiadau dros y blynyddoedd diwethaf.

1.4 Yn gyffredinol rwy'n hapus gyda chynnydd prosiectau yr arweinir arnynt o fewn Cynllun y Cyngor a'r mesurau perfformiad yr wyf yn gyfrifol amdanynt.

## 2 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

## 3 PROSIECTAU CYNLLUN Y CYNGOR

### 3.1 Cadw'r Budd yn Lleol

Mae'r Uned Caffael yn parhau i gynghori ac annog busnesau lleol i ymgeisio am gytundebau gyda'r Cyngor er mwyn cadw cymaint o wariant y Cyngor yn lleol a sy'n bosib, er budd economi Gwynedd. Rhwng 1 Gorffennaf a 30 Medi, roedd 56% o **wariant cyfalaf a refeniw** yn wariant lleol, sydd yn 3% o ostyngiad o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Mae hyn oherwydd gwariant o £1.8m i gwmni o Wrecsam i adeiladu Ysgol Garnedd ym Mangor. Wedi dweud hynny, mae 36% o'r swm hwnnw wedi ei wario gyda chwmnïau sydd o fewn 40 milltir i'r safle drwy drefniadau is-gontractio.

Mae'r canran o **wariant refeniw** yn unig hefyd wedi gostwng - 59% rhwng Gorffennaf a Medi eleni o'i gymharu â 62% dros yr un cyfnod y llynedd. Mae hyn oherwydd yn y flwyddyn flaenorol dyfarnwyd contract gwerth £1.1m i gwmni o Bwllheli i ail doi Ysgol Harlech yn dilyn storm– roedd hyn yn waith ychwanegol i raglen cynnal a chadw adeiladau arferol.

Er mwyn ceisio helpu cwmnïau lleol llai o faint mae'r Uned wedi mynd ati i dorri tendrau i lotiau llai er mwyn rhoi pob cyfle i gwmnïau gystadlu am ddarn o'r gytundeb. Mae'r adborth gan y farchnad wedi bod yn bositif gyda chwmnïau lleol yn diolch am y cyfle i gystadlu. Ym maes Cynnal a Chadw, mae cytundeb fframwaith newydd mewn lle ers Mehefin eleni, ac rwy'n falch iawn o nodi fod y nifer o gyflenwyr lleol a dderbyniodd le ar y fframwaith wedi cynyddu o 41% i 60%.

Mae mwy i 'gadw'r budd lleol' na buddion economaidd yn unig. Roeddwn hefyd yn falch iawn o glywed am y gwaith mae'r Uned yn ei wneud er mwyn denu **buddion cymdeithasol** o gytundebau e.e. mae un o brif gyflenwyr y Cyngor yn cyfrannu pecynnau bwyd ac eitemau hylendid yn fisol i fanciau bwyd yng Ngwynedd a siacedi llachar i ysgolion ar gyfer plant

sy'n cyflawni gweithgareddau diogelwch ffyrdd. Rwyf wedi annog yr uned i barhau i ddarganfod cyfleon gwerthfawr o'r fath.

Fel rhan o drefniadau gosod cytundebau arferol, mae'r Uned Caffael hefyd yn annog darparwyr i gwrdd ag anghenion **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**, ac yn asesu eu cyfraniad amgylcheddol, cymunedol, diwylliannol ac economaidd.

Mae'r Uned Caffael hefyd yn arwain y Grŵp Lleihau Plastig Untro ac yn edrych yn benodol ar ffyrdd i **leihau pryniant plastig diangen**, a hynny yn swyddfeydd y Cyngor a thu hwnt. Mae cynlluniau ar waith i leihau defnydd o boteli llefrith plastig mewn ysgolion ac i annog busnesau lleol i leihau defnydd o pecynnau plastig.

3.2 **Cynllun Prentisiaethau**

Cynlluniwyd i benodi 20 prentis yn ystod 2019/20, ac mae 17 o'r rhain eisoes wedi eu penodi i weithio mewn 10 maes gwahanol - megis peirianneg sifil, gofal dysgu a datblygu plant neu dechnoleg gwybodaeth. Newyddion gwych yw bod un o'n prentisiaid yn Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd eisoes wedi cael cynnig swydd technegydd, a bydd rôl wag y prentis yn cael ei hail lenwi gyda phrentis newydd.
Wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol, rydym yn edrych ar ffyrdd eraill y gallwn gael budd o benodi prentis – ee. hyfforddi staff i lenwi bylchau swyddi sy'n cael eu hail-hysbysebu dro ar ôl tro, adnabod ble mae trosiant staff neu bod proffil oedran yn awgrymu bod angen hyfforddi to newydd o staff â sgiliau cymwys.

3.3 **Merched mewn Arweinyddiaeth**

Nod y prosiect yw hybu'r nifer o ferched sy'n ymgeisio ac yn cyrraedd swyddi uwch o fewn y Cyngor. Fis Hydref fe drefnwyd gweithdy i 50 o ferched sydd eisoes mewn swyddi rheoli neu arwain tîm, gan gasglu adborth pellach i'r hyn a gasglwyd mewn holiadur blaenorol yn ôl yn 2017. Fe drefnwyd weithdy i ddynion sy'n gweithio mewn rolau rheoli neu arwain hefyd ym mis Rhagfyr mewn ymdrech i ledaenu ymwybyddiaeth o'r hyn sydd angen sylw ac i dderbyn adborth ganddynt hwythau. Bydd asesiad manwl o'r adborth o'r gweithdai hyn yn cael ei gynnal fis Ionawr cyn symud ymlaen i lunio rhaglen waith ar gyfer y 12 mis i ddod.

3.4 **Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus**

Nod y prosiect hwn yw ceisio gosod safon ddisgwyliedig a chyson ar draws y cyrff cyhoeddus sy'n gweithio yng Ngwynedd, ac annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y cyswllt cyntaf rhwng dinesydd â'r gwasanaethau hynny.

Mae'r gwaith o symud y prosiect hwn yn ei flaen ynghlwm â gwaith sydd yng ngofal y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ond mae'r gwaith mapio darpariaeth wedi ei orffen bellach. Bu'n rhaid aros tan fis Medi er mwyn i'r safonau iaith ar gyfer y maes iechyd gael eu gosod.

Mae'r gwasanaeth wedi dechrau asesu sgiliau iaith y Timau Integredig sy'n gweithio ym maes gofal oedolion, sef Timau lleol o staff y Cyngor (megis gweithwyr cymdeithasol) a staff y Gwasanaeth Iechyd. Byddant yn derbyn cymorth i gytuno ar egwyddorion gweithredu o ran defnydd o'r Gymraeg fel bod trigolion Gwynedd yn derbyn gwasanaeth yn eu dewis iaith.

3.5 **Busnesau Gwynedd i Ddefnyddio'r Gymraeg**

Mae'r cyswllt uniongyrchol â busnesau'r sir yn cael ei gynnal gan swyddogion o fewn yr Adran Economi a Chymuned, ac y maent yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ymysg y sector preifat. Mae swyddogion Hunaniaith, drwy eu gwaith cymunedol, hefyd yn annog busnesau i gynyddu eu defnydd.

Elfen arall o'r gwaith yn ddiweddar yw cydweithio â siroedd eraill gorllewin Cymru, drwy'r prosiect ARFOR, ac mae pob busnes sy'n rhan o'r prosiect hwn yn cael cynnig cymorth ychwanegol i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.

3.6 **Hybu Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor**

Mae yna ddwy elfen i'r gwaith yma, sef asesu a diweddaru anghenion ieithyddol gwahanol swyddi o fewn y Cyngor, a chynnig cymorth ymarferol i staff i ddysgu neu loywi eu Cymraeg er mwyn cyrraedd y lefelau rhuglder angenrheidiol.

Mae'r elfen gyntaf wedi ei chwblhau, ac mae'r ail elfen yn symud yn ei blaen yn foddhaol iawn. Mae tua 43% o weithlu'r Cyngor wedi eu hasesu bellach er mwyn mesur ydi eu sgiliau iaith yn llawn gyrraedd gofynion eu swydd, ac mae hyn yn cynnwys staff mewn cartrefi gofal. Ble mae lle i wella rydym fel Cyngor yn cynnig hyfforddiant gloywi iaith i'n staff, ac mae'n cael ei gynnig mewn sawl dull, o 'tips Cymraeg y mis' a hyfforddiant gloywi iaith ar-lein, i diwtora wyneb yn wyneb, neu gynllun Cyfeillion Cymraeg.

3.7 **Arfogi Unedau i roi Ffordd Gwynedd ar Waith**

Yn ei gyfarfod ar 23 Gorffennaf eleni fe fabwysiadodd y Cabinet Gynllun Ffordd Gwynedd 2019-2023, sy'n amlinellu cam nesaf ein taith fel Cyngor i newid ein ffodd o weithio er mwyn sicrhau bod pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.

Erbyn hyn mae'r mwyafrif o reolwyr wedi mynychu'r Rhaglen Hyfforddi Rheolwyr gydag adborth positif iawn. Yn ogystal, mae nifer o Aelodau'r Cabinet wedi manteisio ar y cyfle i fynychu sesiynau er mwyn datblygu eu dealltwriaeth ymhellach drwy gyfuniad o ddysgu ffurfiol, trafodaethau a phrofiadau ymarferol Dyma esiampl o adborth gan Aelod Cabinet:

> "Dysgais lawer iawn drwy fynychu hyfforddiant Ffordd Gwynedd. Roedd y gymysgedd o ddysgu ffurfiol ac ymarferol yn effeithio iawn ac esiamplau a straeon da roedd yr hyfforddwyr yn ychwanegu i'r

sesiwn yn creu awyrgylch hwyliog i'r hyfforddiant. Roedd yn ysbrydoliaeth i mi weld ymateb Rheolwyr y Cyngor i'r hyfforddiant. Roedd pawb ar y cwrs yn gadael gyda brwdfrydedd ac ymroddiad i wirionedd roi pobl Gwynedd yn hollol ganolog i'w gwaith."

Y ffocws i'r dyfodol fydd ceisio mesur sut mae mabwysiadu Ffordd Gwynedd o weithio yn arwain at wella ein gwasanaeth i bobl Gwynedd. Mae sawl elfen o'r gwaith hwn eisoes wedi dechrau, a byddaf yn gallu adrodd ymhellach ar ganlyniadau erbyn fy adroddiad perfformiad nesaf. Rydym wedi cynnwys yr ymddygiadau sy'n ddisgwyliedig o bob rheolwr yn eu swydd-ddisgrifiadau, gyda golwg i sicrhau cytundeb ar yr ymddygiadau generig a ddisgwylir gan Benaethiaid Adran, Penaethiaid Cynorthwyol, Arweinyddion Tîm a staff yn gyffredinol yn y dyfodol agos. Bydd yr ymddygiadau hyn yn sail i drafodaethau gwerthuso parhaus rhwng aelod o staff â'i reolwr llinell.

3.8 **Datblygu Arweinyddiaeth**

Fis Tachwedd fe gynhaliwyd sesiwn dilynol i'r Cabinet cyfan ar yr hyfforddiant datblygu gwaith tîm. Cafwyd sesiwn buddiol gan ail ymweld â'r proffil tîm a'r pwyntiau gweithredu gwreiddiol yn ogystal â llunio rhai newydd er mwyn edrych i'r dyfodol fel tîm newydd.

3.9 Mae llawer o'r gwaith oedd angen ei wneud o fewn y prosiect hwn eisoes wedi ei ddisgrifio o dan y pennawd Arfogi Unedau i roi Ffordd Gwynedd ar Waith uchod, ac felly rhag ail adrodd fe fyddaf yn adrodd ar ddatblygiad y ddau brosiect ar y cyd yn y dyfodol.

4 **PERFFORMIAD**

4.1 Yn ychwanegol i'r gwaith sy'n cael ei ddisgrifio uchod ar brosiectau sy'n perthyn i Gynllun y Cyngor, mae gweddill prif brosiectau Adran Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn cael eu disgrifio isod. Ymhellach, ceir adroddiad llawn ar y mesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio yn **Atodiad 1.**

4.2 Mae datblygiad **Hunanwasanaeth** ar wefan y Cyngor yn hanfodol bwysig i alluogi trigolion Gwynedd i gael mynediad i wybodaeth 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, a chynnig ffordd fwy cost effeithiol o gysylltu â'r Cyngor am wasanaeth.

4.3 Mae'r niferoedd o gyfrifon hunanwasanaeth yn parhau i gynyddu, gyda 47,200 cyfri yn bodoli erbyn diwedd Hydref 2019, 11,003 cyfri yn fwy na'r un cyfnod y llynedd. Mae y niferoedd sy'n mewngofnodi i'w cyfrifon yn fisol hefyd yn parhau i gynyddu o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, a chafwyd cynnydd sylweddol o 12,496 mewngofnodiad ym mis Medi o ganlyniad i gyflwyno'r Cais am Docyn Teithio 16+, a rhieni yn creu cyfri er mwyn talu am daliadau ysgol ar-lein.

4.4 Ym mis Gorffennaf fe adroddais bod 5 gwasanaeth bellach yn derbyn mwy o geisiadau wedi eu cyflwyno drwy hunanwasanaeth na thros y ffôn, ac mae'n dda gallu adrodd bod hynny bellach wedi codi i 7 gwasanaeth.

4.5 Datblygiad cyffrous arall yr wyf yn falch o fedru ei rannu yw ein bod bellach fel Cyngor yn gallu cynnig gwasanaeth 'webchat' drwy'n gwefan ers mis Rhagfyr. Byddaf yn gallu adrodd ymhellach ar ddatblygiad y ddarpariaeth yma yn fy adroddiad perfformiad nesaf.

4.6 Pan fydd holl brosiectau'r flwyddyn ariannol bresennol wedi eu cwblhau, megis system hunanwasanaeth ar gyfer y dreth Gyngor, bydd yr Uned yn cymryd cam yn ôl i asesu â yw'r ddarpariaeth bresennol o hunanwasanaeth yn llwyddo i ddarparu'r gwasanaeth gorau i'r cwsmer. Mae rhai enghreifftiau'n amlygu eu hunain lle mae cwsmeriaid yn derbyn gwasanaeth annigonol ar ôl cyflwyno cais ar-lein, ar felly mae'n rhaid rhoi sylw i hyn, a gwella unrhyw ddiffygion cyn symud ymlaen i ddatblygu hunanwasanaeth ar draws meysydd newydd.

4.7 Mae'r cyfrifoldeb am gynnwys **gwefan y Cyngor** gan Wasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu'r Cyngor. Rhwng 1 Mehefin a 31 Hydref bu i 756,644 o unigolion ddefnyddio gwefan y Cyngor, oedd 58,008 yn lle na'r un cyfnod y llynedd. Gellir priodoli'r cwymp cymharol yma i'r ffaith fod gwefan annibynnol 'Byw'n Iach' (y gwasanaeth hamdden gynt) wedi mynd yn fyw ar 1 Ebrill. O'r 637 o unigolion wnaeth ddefnyddio'r teclyn adborth i fynegi barn ar gynnwys y wefan fe wnaeth 168 roi sgôr o llai na 5 allan o 5. Dim ond 85 o'r rhain wnaeth gyflwyno cwyn neu gynnig awgrym i wella'r cynnwys, ac mae 83 allan o'r 85 cwyn bellach wedi eu datrys, 88% ohonynt o fewn 3 diwrnod gwaith.

4.8 Un rhan arall o waith y **Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu** yw rhannu gwybodaeth am waith y Cyngor yn y wasg, a thrwy gyfryngau cymdeithasol. Rwyf wedi holi'r Gwasanaeth i weld os ydi'r holl bapurau newydd sy'n gwasanaethu Gwynedd yn cario straeon am waith y Cyngor, ac i weld a oes gwaith pellach sydd angen ei wneud er mwyn cyrraedd pobl ar draws y sir yn gyfan.

4.9 Pwrpas y **Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth** newydd ydi 'Helpu pob aelod o staff i reoli gwybodaeth ar bapur neu'n electronig a chadw at ddeddfau gwybodaeth. Datblygu gallu'r Cyngor a'i bartneriaid i ddefnyddio gwybodaeth a thystiolaeth er mwyn gwneud y penderfyniadau gorau i bobl Gwynedd'.

4.10 Bu 10 '**digwyddiad gwybodaeth**' (lle mae gwybodaeth am unigolyn wedi ei ddwyn/colli/mynd i'r cyfeiriad anghywir) rhwng 11 Mehefin a 29 Tachwedd 2019. Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys pob math o achosion, ond nid oedd yr un ohonynt yn ddigon difrifol i ni fod yn adrodd i Swyddfa'r Comisiwn Gwybodaeth. Mae'r nifer cynyddol yma yn peri pryder, ac felly mae gwaith yn parhau ar y gweill i edrych ar ein polisïau i'r gweithlu gan ystyried sut yr ydym yn sefydliadol am ymateb i'r achosion hyn i'r dyfodol.

4.11 Mae nifer o brosiectau ymchwil ar y gweill, ac un yw 'Proffil Ardaloedd Gwynedd', sef teclyn sy'n dal 180 o wahanol ddarnau o wybodaeth am 73 o ardaloedd bychain ar draws Gwynedd. Gall y gwaith proffilio hwn fod yn ddefnyddiol iawn wrth geisio rhagweld y galw am wasanaethau neu i gyflwyno ceisiadau grant. Rwyf wedi gofyn i'r gwasanaeth rannu'r wybodaeth sydd ar gael gyda sefydliadau yn y trydydd sector, er mwyn iddynt gael yr un budd ohono.

4.12 Un o gyfrifoldebau **Gwasanaeth Cefnogol** y Cyngor yw gweinyddu'r broses o sicrhau fod gan unrhyw un o weithwyr neu aelodau o'r Cyngor sydd angen dadleniad DBS (Disclosure and Barring Service) un cywir a chyfredol. Yn fy adroddiad diwethaf fis Gorffennaf nodais ein bod mewn cysylltiad â Chomisiynydd yr Iaith Gymraeg i geisio symud y gwaith yn ei flaen o ran datblygu modiwl Cymraeg ei hiaith ar gyfer ceisiadau ar-lein y DBS. Mae'n dda bod y modiwl safonol bellach ar gael yn ddwyieithog, ond mae'r modiwl pellach yn parhau i fod ar gael drwy'r Saesneg yn unig, ac felly byddwn yn parhau i bwyso er mwyn ceisio cael yr holl ddarpariaeth ar-lein yn ddwyieithog.

4.13 Mae Gwasanaethau **Galw Gwynedd a Siopau Gwynedd** yn rhoi cymorth prydlon a chywir i'n cwsmeriaid i gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor drwy ddarparu atebion, arweiniad a gwasanaeth. Rhwng Gorffennaf a Hydref roedd 91% o gwsmeriaid gwasanaeth ffôn **Galw Gwynedd** wedi rhoi sgor o 10 allan o 10, ac er mwyn mesur pam fod gweddill ein cwsmeriaid yn anfodlon mae'r gwasanaeth wedi treialu trefn o ofyn i'r cwsmer adael adborth ar beiriant ateb ar ol gorffen eu galwad, ac mae hyn wedi arwain atom yn gallu gwella ein gwasanaeth i'r dyfodol.

4.14 Mae'r Gwasanaeth wedi adolygu'r trefniadau o awdurdodi **Bathodynnau Glas** ac mae ffordd newydd, fwy effeithiol gobeithio, o weithio yn cael ei dreialu am 6 mis o fis Rhagfyr ymlaen. Mae treial cychwynnol wedi dangos ei bod bellach yn cymryd 30 diwrnod i awdurdodi cais, yn hytrach na'r 50 diwrnod o dan yr hen drefn. Rydym fel Cyngor hefyd wedi helpu'r Llywodraeth er mwyn gwella'r ddarpariaeth ddwyieithog o fewn y system newydd hon.

4.15 Mae adolygiad llawn o drefniadau gwaith yr **Uned Iechyd Galwedigaethol** yn mynd rhagddo er mwyn datblygu trefniadau di-bapur ac arbed amser staff. Ers symud i system apwyntiadau electronig yn hytrach na llythyr mae'r nifer o apwyntiadau sy'n cael eu methu wedi lleihau tua 75%, gan arbed tua 2 ddiwrnod gwaith y mis sy'n arwain at fwy o apwyntiadau yn cael eu cynnig i'r staff sydd eu hangen.

4.16 Ers fy adroddiad diwethaf mae'r **Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant** wedi cynnal ymchwiliadau i ddau ddigwyddiad yn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, un ble bu i aelod o staff golli darn o'i fys wrth ddefnyddio peiriant, a'r ail ym ymwneud â digwyddiad gyda lori ailgylchu a allasai fod wedi arwain at ddamwain difrifol. Mae staff y Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Adran o ganlyniad i'r ddau ymchwiliad i sicrhau na fydd achosion o'r fath yn codi eto.

4.17 Ers i mi gyhoeddi fy adroddiad perfformiad diwethaf, mae'r unedau **democratiaeth, iaith a chyfieithu** wedi uno i greu un gwasanaeth. Bydd y Gwasanaeth yn parhau i adolygu eu mesurau perfformiad i weld os ydynt yn rhoi'r darlun gorau i ni o sut y maent yn gwasanaethu pobl Gwynedd.

4.18 Yn dilyn herio perfformiad y **Gwasanaeth Cyfreithiol** maent yn parhau i adrodd fod yna lefel weddol uchel o fodlonrwydd gyda'r gwasaaneth sy'n cael ei gynnig. Dychwelwyd 15 holiadur bodlonrwydd rhwng Gorffennaf a diwedd Hydref, 13 ohonynt yn sgorio 10 allan o 10 a 2 arall yn sgorio 7. Cefais esboniad derbyniol pam y rhoddwyd y sgôr is, sef ei fod yn ymwneud ag achos llys pan fu'n rhaid i'n cyfreithwyr ymateb yn y fan a'r lle. Rwy'n gwbl fodlon nad yw hyn yn adlewyrchu safon gwaith y Gwasanaeth yn ei gyfanrwydd.

4.19 Un datblygiad newydd cyffrous ers fy adroddiad diwethaf yw penodi Katie Sutherland i'r swydd o Grwner Cynorthwyol. Mae hi'n gyfreithwraig yn y maes esgeulustod meddygol, ac yn rhugl yn y Gymraeg.

4.20 Mae amlwg, fel gyda nifer o wasanaethau eraill y Cyngor, bod yna bwysau gwaith cynyddol ar y Gwasanaeth, ac felly rwyf yn cadw golwg ar allu'r nifer o staff presennol i gyflawni niferoedd cynyddol o achosion. Mae'n newyddion da y bydd hyfforddai newydd yn cychwyn gyda'r Gwasanaeth yn y dyfodol agos.

4.21 Prif faterion perfformiad yn unig a nodir uchod wrth gwrs. Tra fy mod wedi cael trafodaethau manwl ar amrywiol faterion eraill o fewn y gwahanol unedau, rwyf yn fodlon fod perfformiad gweddill yr unedau hynny o fewn yr amrediad perfformiad disgwyliadwy. Yr unedau hynny yw Cefnogi Busnes y Cyngor ac Adnoddau Dynol.

## 5 SEFYLLFA ARIANNOL/ ARBEDION

5.1 Mae holl gynlluniau arbedion yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol ar gyfer 2019/20 eisoes wedi eu gwireddu, heblaw am un cynllun sef *Uno Dysgu a datblygu ac Uned Datblygu Gweithlu* gwerth £30,000, ac mae hwnnw hefyd ar drac i gyflawni'n amserol.

5.2 Mae gwerth £443,315 o gynlluniau lleihau gwariant ar brosiectau caffael wedi eu hadnabod ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20. O'r rhain, mae £179,694 wedi eu cwblhau yn barod gyda'r gweddill (£263,621) ar waith i'w cyflawni.

5.3 Mae'r Uned Caffael, drwy gydweithio ag un ysgol gynradd i ailedrych ar eu cytundeb peiriannau argraffu, wedi llwyddo i ddarganfod arbediad ariannol o £11,681.19 eleni a fydd yn mynd yn ei ôl i gyllideb yr ysgol benodol honno (dros gyfnod y contract blaenorol o dair mlynedd bydd arbediad o £35,043.58). Rydw i'n falch iawn o glywed am y gwaith yma ac yn edrych ymlaen i adrodd ymhellach wrth i'r Uned barhau i weithio â'r Adran Addysg.

## 6 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

6.1 Dim i'w nodi.

## 7 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

7.1 **Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb .

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Mae'r adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfaoedd yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Gwasanaeth Cyfreithiol o ran gwireddu'r cynlluniau arbedion, gyda holl gynlluniau arbedion 2019/20 eisoes wedi eu gwireddu neu ar drac i wireddu'n amserol. Bydd swyddogion Cyllid yn parhau i gynorthwyo'r Aelod Cabinet i fonitro'r cynnydd yn erbyn y cynlluniau.

7.2 **Barn yr Aelod Lleol:**

7.2.1 Ddim yn fater lleol.

7.3 **Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

7.3.1 Dim i'w nodi.

---


**Atodiadau**

Atodiad 1 – Mesurau Perfformiad

**Mesurau Perfformiad Adran Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Gwasanaeth Cyfreithiol : Mehefin - Hydref 2019**


<u>Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu</u>

**Mesurydd Perfformiad 1 – Gwefan Allanol y Cyngor: Nifer y defnyddwyr sy'n adrodd eu bod yn anfodlon gyda'r wefan (1 Mehefin – 31 Hydref 2019)**




- Fe wnaeth y wefan dderbyn **756,644 o ymweliadau unigol** rhwng Mehefin a Hydref, 58,008 yn llai na'r un cyfnod y llynedd. Gellir priodoli'r cwymp cymharol yma i'r ffaith fod gwefan annibynnol 'Byw'n Iach' (y gwasanaeth hamdden gynt) wedi mynd yn fyw fis Ebrill 2019.
- Dim ond **637 (0.1%)** wnaeth ddefnyddio'r teclyn adborth i fynegi barn ar y cynnwys.
- Roedd **74%** o'r rhai wnaeth fynegi barn yn gyfangwbl fodlon gyda'r wefan.
- O'r 168 ymwelydd wnaeth nodi sgôr bodlonrwydd o lai na 5 allan o 5, fe wnaeth **85** gyflwyno cwyn neu awgrym i wella'r cynnwys.

**Mesurydd Perfformiad 2 – Gwefan Allanol y Cyngor: Nifer y cwynion neu sylwadau a dderbynnir am y wefan**





- Mae **83** o'r **85** cwyn a dderbyniwyd dros gyfnod yr adroddiad wedi eu datrys.
- Llwyddwyd i gau **75** (**88%**) o'r sylwadau/cwynion o fewn 3 diwrnod gwaith, o'i gymharu â 86% dros y cyfnod blaenorol.

**Mesurydd Perfformiad 3 – Cynlluniau Cyfathrebu ac Ymgysylltu – Sgôr allan o 10 a dderbynnir ar ddiwedd cynllun penodol mewn ymateb i'r cwestiwn "I ba raddau mae'r gefnogaeth yr ydych wedi ei dderbyn gan yr Uned wedi eich cynorthwyo i ymgysylltu yn effeithiol gyda phobl Gwynedd".**

- Derbyniwyd sgôr o 10 allan o 10 ar gyfer yr 8 cynllun a gefnogwyd rhwng Mehefin a Hydref 2019.
- Mae ffurflenni adborth yn parhau i amlygu'r ffaith fod gwasanaethau'r Cyngor o'r farn fod y Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn ychwanegu gwerth i'w cynlluniau a bod croeso mawr i'r gefnogaeth.


<u>Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth</u>

**Mesurydd Perfformiad 1 – Nifer digwyddiadau gwybodaeth lle mae gwybodaeth am unigolyn wedi ei ddwyn/colli/mynd i'r cyfeiriad anghywir**





Cafwyd 10 digwyddiad rhwng 11 Mehefin a 29 Tachwedd, ac mae'r nifer yma o achosion yn peri pryder. Er hyn, nid oes patrwm amlwg o ran natur, tarddiad neu amseriad yr achosion ac nid oeddynt yn ddigon difrifol i'w hadroddi i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

**Mesurydd Perfformiad 2 – Deddf Rhyddid Gwybodaeth – canran ceisiadau rhyddid gwybodaeth a atebwyd o fewn 20 diwrnod gwaith**




Gwelwyd ddirywiad bychan mewn perfformiad hyd yma eleni, gan mai 77% yw'r ffigwr cronnus ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill i diwedd Tachwedd.
Mae niferoedd y ceisiadau yn parhau i gynyddu hefyd, sydd wrth gwrs yn rhoi pwysau ychwanegol ar amser staff.

**Mesurydd Perfformiad 3 – Diogelu Data – canran ceisiadau diogelu data atebwyd o fewn un mis calendr (ceisiadau gan unigolion i gael gweld gwybodaeth amdanynt eu hunain)**




Mae'r amser a gymer i ateb ceisiadau hyd yma eleni yn cymharu'n ffafriol â'r llynedd, yn enwedig gan bod y niferoedd o geisiadau yn parhau i gynyddu.

**Mesurydd Perfformiad 4 – Holiadur iGwynedd (system rheoli cofnodion electronig) yn gofyn barn staff am y system**

A ydi'r system yn gwneud beth ydych chi ei eisiau? –


Mae'r wybodaeth yma yn cael ei defnyddio i lywio cefnogaeth bellach i'r Adrannau, ac i greu canllawiau gwybodaeth a hyfforddiant.

Roedd yr holiadur cyntaf i Adran 1 yn adrodd bod **81%** yn credu bod y system yn gwneud beth oeddynt ei eisiau.
Roedd holiadur dilynol i Adran 2 yn adrodd bod **72%** yn credu bod y system yn gwneud beth oeddynt ei eisiau, o'i gymharu â 56% yn yr holiadur cyntaf.

<u>Gwasanaeth Galw Gwynedd, Siop Gwynedd a'r Gwasanaeth Cofrestru</u>


**Mesurydd Perfformiad 1 - Gwasanaeth Galw Gwynedd a Siopau Gwynedd - Bodlonrwydd Cwsmeriaid Galw Gwynedd**

Bodlonrwydd Cwsmeriaid Galw Gwynedd (sgôr allan o 10)





**Mesurydd Perfformiad 2 - Gwasanaeth Galw Gwynedd a Siopau Gwynedd - Bodlonrwydd Cwsmeriaid Siop Gwynedd**

Bodlonrwydd Cwsmeriaid Siop Gwynedd (sgôr allan o 10)





7/10 = 2%
8/10 =7%
9/10 =2%
10/10 =89%

**Mesurydd Perfformiad 3- Gwasanaeth Galw Gwynedd a Siopau Gwynedd - Darparu Gwasanaeth Prydlon yn Galw Gwynedd**




<u>Gwasanaeth Democratiaeth a Iaith</u>

**Mesurydd Perfformiad 1 - Canran y rhaglenni pwyllgorau sydd wedi eu cyhoeddi yn electroneg o fewn amser**




**Mesurydd Perfformiad 2a – Barn defnyddwyr am waith cyfieithu ysgrifenedig**

Derbyniwyd 15 ymateb i'r holiadur, a phob un heblaw un yn rhoi sgôr o 5/5.

Roedd y sylwadau a roddwyd ar gyfer yr un holiadur na roddodd sgôr llawn wedi eu cyfarch.

**Mesurydd Perfformiad 2b – Barn defnyddwyr am waith cyfieithu ar y pryd**

Derbyniwyd 2 ymateb i'r cardiau adborth, a'r 2 yn rhoi sgôr o 5/5.

Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol

**Mesurydd Perfformiad 1 – Nifer o ddyddiad absenoldeb salwch y pen ar gyfartaledd (1 Ebrill i 30 Medi)**


| 2019/20 | 2018/19 | 2017/18 | 2016/17 |
|---|---|---|---|
| 4.06 | 4.02 | 3.85 | 4.00 |

**Mesurydd Perfformiad 2 – Nifer o apeliadau cyflogaeth sydd wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor Apeliadau Cyflogaeth, a'r nifer o benderfyniadau gan y Pwyllgor sy'n mynd yn groes i benderfyniad y Cyngor**

Cynhaliwyd un achos yn ystod y cyfnod o dan sylw, gyda'r Pwyllgor yn cefnogi penderfyniad gwreiddiol y cyflogwr.

Gwasanaeth Caffael

**Mesurydd Perfformiad 1 – Gwariant Lleol**



# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 21 Ionawr 2020 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd |
| **Pwrpas:** | Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Catrin Wager |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr |

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1.** Pwrpas yr adroddiad yma yw i ddiweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd rydw i'n gyfrifol amdanynt fel Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd. Bydd hyn yn cynnwys egluro ein perfformiad yn unol â'n mesurau, yn ogystal a chyflwyno'r datblygiadau diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau'n y meysydd yma.

**1.2.** Byddwn yn eich atgoffa fod y materion hyn eisoes wedi derbyn sylw ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r Timau Rheoli oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o Bwyllgorau Craffu perthnasol.

1.3. Ar y cyfan, rwy'n fodlon gyda pherfformiad y mesurau rydw i'n gyfrifol amdanyn nhw ac yn diolch i'r adrannau am eu gwaith.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

**2.1.** Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**3. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

**3.1.** Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

**4. PERFFORMIAD**

**<u>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</u>**

**4.1** Mae trigolion Gwynedd wedi dweud wrthym fod cynnal amgylchedd lleol o safon uchel ac edrychiad strydoedd a mannau cyhoeddus yn bwysig iddyn nhw. Mae'r mesur **canran o strydoedd y Sir sydd yn lân** yn dangos gostyngiad i 95.5% eleni o'i gymharu â'r ffigwr o 98.5% a adroddwyd yn 2018/19. Mae'r ffigwr yma wedi amrywio rhwng 94% a 99% dros y blynyddoedd ac ymddengys ei fod o fewn yr amrediad disgwyliadwy ond bydd angen cadw golwg arno. Dylid nodi fod y ffigwr am eleni yn seiliedig ar arolwg mewnol yr adran yn unig ac felly nad yw'n gymhariaeth o'r un data a llynedd. Byddaf yn gallu adrodd ar y ffigwr allanol erbyn fy adroddiad nesaf. Mae'r adran hefyd yn y broses o foderneiddio eu dull o fesur i wella ansawdd a phrydlondeb y data felly fe fydda i'n cadw golwg ar y sefyllfa.

**4.2** Rydym yn ymdrin â **digwyddiadau tipio anghyfreithlon o fewn 5 diwrnod o dderbyn gwybodaeth amdano** ond doedd dim modd gweithio allan yr union gyfartaledd mewn pryd er mwyn gallu adrodd arno y tro yma. Mae hyn oherwydd fod yr adran wrthi'n datblygu trefn newydd o adrodd ac nad oedd y drefn yn ddigon aeddfed ar hyn o bryd. Bydd y drefn newydd yn rhoi ffigurau fwy realistig a chywir felly byddaf yn adrodd yn ôl ar hyn yn fy adroddiad nesaf.

**4.3** Mae'r **Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu** yn gyfrifol am ymdrin â gwastraff mewn modd cynaliadwy.

**4.4** Nodir fod y lefelau **Canran y gwastraff trefol a gesglir gan yr Awdurdod Lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio** wedi cynyddu i 63% o'i gymharu â 62% yn 2018/19, sydd yn adlewyrchu cynnydd sylweddol a weddol gyson ers 2014/15 pan oedd y ffigwr hwn yn 55.25%. Mae angen i Gyngor Gwynedd gyrraedd targed statudol o 64% erbyn Mawrth 2020 er mwyn cwrdd â gofynion Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, ystyrir unwaith y bydd 'Bottom Ash' sy'n cyfrannu at y ffigwr yma wedi'i symud o safle newydd Parc Adfer (rhan o Brosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru) fod yr Adran yn hyderus y bydd hynny'n ein cynorthwyo i gyrraedd y targed o 64%. Rhaid nodi y bydd y targed wedyn yn codi i 70% erbyn diwedd Mawrth 2025, ac rwy'n awyddus i gychwyn edrych ar ddulliau amgen o hybu ailgylchu a'r economi gylchog er mwyn sicrhau cyrraedd y targed uchelgeisiol yma.

**4.5** Fel nodais yn fy adroddiad diwethaf, roedd perfformiad y mesur **Canran y gwastraff trefol a'i anfonir i dirlenwi** wedi gwella o 38% yn 2018/19 i 19% yn y cyfnod o Ebrill i Mai. Bellach, mae'r canran hwn wedi gostwng eto i 18%. Gellir priodoli'r gwelliant hwn i'r ffaith fod mwy o wastraff bwrdeistrefol wedi ei drin drwy drefn llosgi ac o ganlyniad ddim wedi'i anfon i dirlenwi.

4.6 Tra fod ardaloedd eraill yn weddol gyson i'r arfer, roedd cynnydd yn y **nifer o gasgliadau (bocsys glas a biniau bwyd) a fethwyd** yn Arfon ym mis Hydref 2019 mewn cymhariaeth â'r un cyfnod yn 2018. Mae'r cynnydd yma'n cyd-fynd ag amseriad y newid diweddar sydd wedi'i gyflwyno i'r drefn casglu gwastraff yn ardal Arfon (gweler 5.2 isod) lle cafwyd rhai trafferthion mewn perthynas â staffio a newidiadau yng nghylchdeithiau'r gweithwyr. Gwn fod y trafferthion yn parhau ac mae yna gamau yn cael eu cymryd gan y Pennaeth i ymateb. Erbyn i mi adrodd y tro nesaf, bydd y trefniadau casglu newydd wedi setlo a gobeithir felly y bydd modd adrodd fod y sefyllfa wedi gwella.


4.7 Rwyf wedi gofyn i'r adran ymchwilio i'r broses o dderbyn a gweithredu ar gwynion yn dilyn adborth gan drigolion Gwynedd. Rwyf wedi gofyn iddynt roi sylw i'r gwaith yma ar fyrder a byddaf yn adrodd eto ar hyn tro nesaf.

4.8 **Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd:** Rydym newydd dderbyn y ffigurau ar gyfer cyflwr ein ffyrdd sy'n dangos mai 3.5% o'r Ffyrdd Dosbarth A sydd mewn cyflwr gwael (o'i gymharu gyda 3.3% a 3.2% yn y blynyddoedd blaenorol) a 3.9% o rai Dosbarth B (o'i gymharu gyda 3.8% yn y ddwy flynedd flaenorol). Mae cyflwr ein ffyrdd Dosbarth C yn dangos mai 14.2% sydd bellach mewn cyflwr gwael o'i gymharu gyda 14.5% ac 14.1% yn y ddwy flynedd blaenorol. Roedd y ffigwr yma'n 15.8% yn 2015/16. Fe weler felly bod peth dirywiad yng nghyflwr ein ffyrdd Dosbarth A a B. Bydd angen cadw golwg ar hyn dros y flwyddyn nesaf ac wedi cyfnod y gaeaf.

## 5. DIWEDDARIAD AR BROSIECTAU

5.1 Yn yr adroddiad diwethaf, nodais fod y gwaith o **newid ein goleuadau stryd ac arwyddion i dechnoleg LED** yn parhau a bod 700 o lampau eisoes wedi newid yn ystod dau fis cyntaf 2019/20 (yn ychwanegol i'r 10,279 oedd wedi eu newid rhwng 2015/16 a 2018/19). Rwy'n falch o adrodd bod oddeutu 1,700 o lampau bellach wedi eu newid yn ystod 2019/20. Mae'r cynllun yma'n un rhan o'n hymdrechion i leihau costau ynni, allyriadau carbon ac atal llygredd goleuo, ac mae'r graff a'r tabl isod yn dangos y lleihad hyd yma yn ein lefelau allyriadau carbon.

| Blwyddyn | Tunelli o $CO_2$ |
|---|---|
| 2014/15 | 3,435 |
| 2015/16 | 3,002 |
| 2016/17 | 2,426 |
| 2017/18 | 1,703 |
| 2018/19 | 1,208 |
| 2019/20 (hyd yma) | 684 |




**5.2** Mae'r gwaith o gyflwyno **newidiadau i'r drefn o gasglu gwastraff** yn mynd yn ei flaen, gyda'r newidiadau wedi eu cyflwyno yn Nwyfor ar y 1af o Orffennaf ac yn Arfon ar y 4ydd o Dachwedd. Camau nesaf y gwaith fydd i gwblhau'r newid ym Meirionnydd yn ystod 2020/21. Byddaf yn adrodd ar effeithiau'r newidiadau hyn ar y gwasanaeth yn fy adroddiadau nesaf.

**5.3** Yn fy adroddiad diwethaf, nodais fod cynllun i **Adolygu Rheolaeth Fflyd y Cyngor** er diben gwneud arbedion ariannol ar waith a fy mod wedi gofyn i'r adran fod yn uchelgeisiol wrth arbrofi â cherbydau trydan. Mae'r prosiect yma yn parhau i fod ar waith ond rydym wedi cydnabod fod gennym ddiffyg mesurau ystyrlon, ac felly mae'r adran wedi cychwyn ar y gwaith o adnabod ffyrdd o fesur y gwasanaeth. Rwyf wedi gofyn i'r adran ystyried a oes modd cyflwyno mesur sy'n ymwneud â'n hallyriadau carbon er mwyn gallu gweld y gwahaniaeth a wneir wrth i ni gyflwyno unrhyw gerbydau trydan neu debyg.

**5.4** Mae'r cynllun i foderneiddio'r **Gwasanaeth Teledu Cylch Cyfyng** ym Mangor, Caernarfon, Pwllheli a Phorthmadog wedi'i gwblhau ar amser. Mae rhaglen hyfforddiant i'r swyddogion heddlu lleol fydd yn gweithredu'r systemau hefyd wedi bod yn llwyddiannus ac mae'r bartneriaeth rhwng y Cyngor a'r Heddlu yn y maes yma'n gweithio'n dda. Hoffwn ddiolch i'r swyddogion am eu gwaith caled ar y cynllun yma. Bydd yr Adran yn edrych nesaf ar gyfleoedd i ddatblygu'r systemau ymhellach – gan gynnwys yn ardal Ogwen.

**5.5** Mae'r cynllun rhanbarthol ar draws 5 o siroedd Gogledd Cymru **i drin gwastraff gweddilliol mewn ffordd amgen** yn symud yn ei flaen yn dda, ac mae safle newydd Parc Adfer bellach yn weithredol.

**5.6** Yn dilyn ymchwiliad gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau i ddisgwyliadau, gofynion, adnoddau a pherfformiad y **Gwasanaeth Gorfodaeth Stryd**, mae'r adran yn gweithredu ar yr argymhellion. Yn fy adroddiad diwethaf, nodais fy mod wedi gofyn i'r adran gwrdd â mi a'r Uwch Swyddogion er mwyn gosod cyfeiriad i'r gwaith. Mae'r cyfarfod hwn eto i'w drefnu felly fe wnaf eich diweddaru yn fy adroddiad nesaf.

**5.7** Yn dilyn ein penderfyniad ym mis Medi i weithredu'n llawn ar argymhellion yr ymchwiliad i **ddefnydd cosbau am gamddefnydd o finiau gwastraff ac ailgylchu,** mae'r adran wedi cyfarfod gyda rhanddeiliaid perthnasol ym Mangor, yn ogystal â chwblhau polisi gweithredu a chanllawiau drafft newydd. Bydd yr adran yn parhau i weithio er mwyn gwireddu'n unol â'n penderfyniad.

<u>**Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd**</u>

**6.1** Y prif fesur sydd wedi ei adnabod ar gyfer yr adran yw **Elw yn erbyn targed.** Er fod llif gwaith yr adran wedi bod yn bositif am y flwyddyn, mae nifer o brosiectau swmpus wedi llithro'n ddiweddar i'r flwyddyn ariannol nesaf ac ar hyn o bryd does dim golwg o brosiectau sylweddol ar y gorwel i gydbwyso hynny. Oherwydd hyn, mae proffil llif gwaith am chwarter olaf y flwyddyn yn edrych yn ansicr ar hyn o bryd. Mae anawsterau staffio ym maes adeiladu hefyd wedi arwain at ddiffyg incwm, ac mae llithriad yn rhaglenni rhai prosiectau yn golygu fod y ffi yn llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf. O ganlyniad i hyn oll, mae'r tafluniad NET diweddaraf ar gyfer 2019/20 yn dangos diffyg elw o £93,296.

**6.2** Yn y maes sifil/isadeiledd, mae'r diffyg o £32,790 gyfwerth a thua 1% o'u targed incwm, ac mae'r adran yn gweithio er mwyn cyfarch y diffyg hwn drwy ddenu gwaith arall. Mae diffyg o £60,506 yn y maes adeiladu sydd gyfwerth â 10% o'u targed incwm ac felly mae'r sefyllfa yma yn peri pryder. Rwyf wedi gofyn i'r adran fynd ati i roi cynllun wrth gefn mewn lle er mwyn cyfarch hyn yn y flwyddyn newydd, ac er mwyn sicrhau nad yw'r math yma o broblem yn ailadrodd ei hun flwyddyn nesaf pe bai'r anawsterau staffio yn parhau. Byddaf yn adrodd yn ôl ar hyn fel rhan o'm adroddiad perfformiad diwedd blwyddyn.

**6.3** Mae'r **Uned Rheolaeth Adeiladu** yn gyfrifol am sicrhau fod gwaith adeiladu yn cwrdd â'r safonau adeiladu. Gweler ynghlwm dabl sy'n cynnwys cyfres o fesurau sy'n mesur eu perfformiad. Dengys y sgôr ar gyfer **bodlonrwydd y cwsmer** (BC-02) ar gyfer Chwarter 2 2019/20 yn 9.75 allan o 10, sy'n cyd-fynd â pherfformiad Chwarter 1 2019/20. Mae'r adran yn gwneud gwaith i ddarganfod unrhyw resymau am anfodlonrwydd, ond mae holiaduron bodlonrwydd wedi darparu rhai awgrymiadau i'r adran edrych arnynt i'r dyfodol. Byddaf yn adrodd yn ôl ar hyn yn fy adroddiadau nesaf.

**6.4** Mae gan yr adran fesur sy'n nodi'r **canran o benderfyniadau wnaethpwyd i'r amserlen statudol (BC-05)** a gellir gweld o'r tabl fod cynnydd sylweddol wedi bod yn y canran hwn ym mis Hydref. Mae'r adran bellach wedi adnabod eu bod yn arfer cynnwys penwythnosau wrth gyfrifo, ac felly fod y ffigurau blaenorol yn rhoi camargraff o'u perfformiad. Mae'r mesurydd bellach wedi ei gywiro felly.

**6.5** Nodir bod yr amser o **dderbyn hysbysiad o strwythur peryglus i fod wedi ei diogelu (BC-03)** yn parhau yn 1 diwrnod, sy'n gyson â pherfformiad 2017/18 a 2018/19.

**7. DIWEDDARIAD AR BROSIECTAU**

**7.1** Mewn perthynas â **chynnal a chadw asedau draenio tir ac arfordirol,** mae system rheoli asedau newydd wedi'i ddatblygu gyda'r uned TG sy'n galluogi'r adran i storio eu holl ddata asedau, ynghyd â data ynghylch digwyddiadau o lifogydd a gwahanol fanylion eraill mewn un lle. Mae unrhyw waith cynnal yn cael ei gofnodi ar y system gyda sylwadau ynghylch difrifoldeb y sefyllfa a syniad o'r gwaith sydd ei angen. Bydd

y drefn newydd yn galluogi'r gwasanaeth i ddatblygu cynllun asedau hir dymor, gyda rhagolygon o ba bryd yn y dyfodol y bydd angen buddsoddi yn ein hasedau.

**7.2** Nodwyd fod y **Gwasanaeth Dŵr ac Amgylchedd** yn denu arian grant er mwyn ymgymryd ag astudiaethau neu waith dylunio er mwyn gostwng y risg o lifogydd mewn ardaloedd yng Ngwynedd sydd wedi dioddef llifogydd yn hanesyddol, neu lle mae tystiolaeth gref fod newid hinsawdd yn debygol o gynyddu risg llifogydd yn y dyfodol. Mae'r gwasanaeth yn parhau gyda'r gwaith ar 7 cynllun ar hyn o bryd (Llanberis, Cei Aberdyfi, Felinheli, Bae Hirael, Afon Gwyrfai a dau yn y Bermo).

**7.3** Mae pryderon am brosiect Prom Gogleddol y Bermo oherwydd fod gwagleoedd wedi eu darganfod ar draws y prom, a bod y prom wedi gorfod cael ei gau mewn rhai mannau oherwydd lefel y risg. Gallai hyn beri'r angen i ailadeiladu'r prom a byddai costau uchel iawn ynghlwm â'r math yma o waith. Mae'r adran yn edrych mewn i hyn ac yn gwneud yr arolygon priodol ar hyn o bryd. Yn fy adroddiad diwethaf, nodais hefyd fod pryderon cyllidol am gynllun Bae Hirael. Wrth i'r adran wneud fwy o waith ymchwil, mae'r costau ynghlwm â'r prosiect i weld yn gostwng rywfaint ac mae'r adran yn dal i edrych ar wahanol opsiynau.

**7.4** Nodais yn fy adroddiad diwethaf fod y gwasanaeth wedi llwyddo i ddenu grantiau ar gyfer cynlluniau yn nalgylch Ogwen a Phwllheli. Mae gwaith yn mynd yn ei flaen ar y ddau gynllun hwn er mwyn paratoi cais busnes manwl i symud ymlaen. Rwy'n falch iawn o gael nodi y tro yma fod y gwasanaeth wedi llwyddo i ddenu grantiau ar gyfer cynlluniau pellach yng Nghwm y Glo, Trefor a'r Groeslon, yn ogystal ag er mwyn gwneud mân welliannau ar asedau'r Cyngor i leihau'r risg llifogydd. Byddaf yn adrodd ar gynnydd y cynlluniau hyn yn fy adroddiadau nesaf.

**7.5** Daw heriau newid hinsawdd â phwyslais ychwanegol ar ein gallu i fod yn rhagweithiol yn y maes llifogydd. Hoffwn ddiolch i'r adran am y gwaith sydd eisoes wedi ei wneud i baratoi ac ymdrin â'r heriau hyn er mwyn ceisio sicrhau cymunedau saff a ffyniannus yng Ngwynedd i'r dyfodol. Byddaf yn parhau i weithio gyda'r adran i gynnal trafodaethau priodol gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Llywodraeth Cymru, cynghorau cymuned, ac eraill megis y sector breifat a'r trydydd sector. Rwyf wedi gofyn i'r adran ystyried sut y maent yn mesur ac yn adrodd ar y gwaith pwysig yma.

**7.6** Rwy'n falch iawn o nodi i'r adran lwyddo i ddenu arian er mwyn ehangu'r system monitro lefelau dŵr sydd wedi bod yn lwyddiant mawr yn ardal Rhostryfan. Ar hyn o bryd, mae'r adran yn gweithio gyda'r uned TG er mwyn sefydlu rhwydwaith monitro a fydd ar gael i adrannau eraill y Cyngor. Bydd gallu gweld y lefelau ein hunain yn ei gwneud yn haws i'r adran flaenoriaethu galwadau a chael gwell tystiolaeth, yn ogystal â'u helpu i leddfu pryderon trigolion. Byddaf yn eich diweddaru ar ddatblygiad y gwaith yma i'r dyfodol.

## 8. SEFYLLFA ARIANNOL / ARBEDION

### <u>8.1 Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</u>

#### 8.1.1 Cynlluniau Blynyddoedd Blaenorol

Mae'r cynlluniau arbedion effeithlonrwydd hyd at ac yn cynnwys 2018/19 wedi eu gwireddu'n llawn heblaw am £33k o gynllun **Cau 50 allan o 73 o doiledau cyhoeddus y Sir** sy'n llithro, gyda'r gwasanaeth mewn trafodaethau gyda rhai Cynghorau

Cymuned i dreialu model trosglwyddo amgen. Mae'r adran hefyd yn edrych ar gynllun amgen i wireddu gweddill yr arbedion drwy ail-strwythuro a chynllun Teledu Cylch Cyfyng i'w ddefnyddio i gyfarch y gwahaniaeth.

**8.1.2 Cynlluniau Arbedion 2019/20**

Mae 8 o'r cynlluniau arbedion 2019/20 unai wedi eu gwireddu neu ar drac i'w gwireddu'n amserol cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Erbyn hyn, mae'r cynllun i **gynyddu incwm gorfodaeth stryd drwy ddirwyo mwy o unigolion sy'n gollwng sbwriel** yn un â risgiau sylweddol. Roeddwn wedi gofyn i gwrdd â'r adran i drafod y targed incwm hwn yn benodol ond mae'r cyfarfod yma eto i'w drefnu.

**8.1.3 Cynlluniau Arbedion 2020/21 ymlaen**

Mae'r adran wedi adnabod 3 cynllun sydd â risg o gyflawni. Gyda'r cynlluniau **trosglwyddo meysydd chwarae i eraill** a **cynhyrchu mwy o incwm neu lleihau costau yn y gwasanaeth gwastraff gardd** nodwyd fod rhai risgiau i gyflawni gyda'r cynlluniau'n llithro neu fethu. Gyda'r cynllun **rhesymoli gweithdai fflyd o 3 i 2 yn y Sir**, nodwyd fod risgiau sylweddol i gyflawni. Byddaf yn adrodd cynnydd ar y cynlluniau hyn yn fy adroddiad nesaf.

**8.2 <u>Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd</u>**

**8.2.1 Cynlluniau Blynyddoedd Blaenorol**

Mae'r cynlluniau arbedion effeithlonrwydd hyd at ac yn cynnwys 2018/19 wedi eu gwireddu'n llawn.

**8.2.2 Cynlluniau Arbedion 2019/20**

Mae cynlluniau arbedion 2019/20 i gyd wedi eu gwireddu yn llawn.

**8.2.3 Cynlluniau Arbedion 2020/21 ymlaen**

Mae cynlluniau arbedion 2020/21 ymlaen ar drac i'w gwireddu'n amserol.

**9. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

**9.1** Dim i'w nodi.

**10. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

**10.1 Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**ii. Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae'r adroddiad yn nodi sefyllfa'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol o ran gwireddu'r cynlluniau arbedion, gydag wyth o'r cynlluniau ar gyfer 2019/20 eisoes wedi'u gwireddu neu ar drac i wireddu'n amserol. Fodd bynnag, mae risgiau ynghlwm â'r cynlluniau eraill, fel sydd wedi ei nodi yn rhan 8.1 o'r adroddiad. Bydd disgwyl i'r adran gyflwyno cynlluniau amgen fel mater o frys i'r cynlluniau sy'n methu neu mewn perygl o fethu; bydd Swyddogion Cyllid yn parhau i gynorthwyo'r Aelod Cabinet i fonitro'r cynnydd yn erbyn y cynlluniau yma.

Mae'n galonogol gweld yn rhan 8.2 bod Ymgynghoriaeth Gwynedd unai wedi gwireddu neu ar drac i wireddu'r cynlluniau arbedion ar gyfer 2019-20.

**10.2 Barn yr Aelod Lleol:**

Ddim yn fater lleol.

**10.3 Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad**

Dim i'w nodi.

---

**Atodiadau**

**Atodiad 1** – Mesurau Perfformiad


**Atodiad 1**

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Mesurau Perfformiad Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol


### Canran o strydoedd y sir sydd yn lân

(Gwybodaeth yn seiliedig ar yr arolwg mewnol ac allanol)





(2019-20 yn seiliedig ar yr arolwg mewnol yn unig)

### Canran y gwastraff trefol a gesglir gan yr Awdurdod Lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio





### Canran y gwastraff trefol a'i anfonir i dirlenwi




Atodiad 1

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Nifer o fethiannau casglu bocsys glas a biniau bwyd**




**Graff yn amlygu casgliadau wedi eu methu ar gyfer y gwasanaeth bwyd a bocsys glas am y cyfnod 1/4/2019 hyd at 31/10/2019 o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2018.**






**Mae'r 'Heat Map' uchod yn dangos lleoliadau y methiannau casglu bocsys glas a bwyd am y cyfnod 1/4/2019 hyd at 31/10/2019.**


**Atodiad 1**

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Canran ffyrdd sydd mewn cyflwr gwael**



Atodiad I

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Mesurau Perfformiad Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd

### Mesuriadau Perfformiad Newydd Rheolaeth Adeiladu 2019-20

| Côd | Disgrifiad/ Description | Ebr | Mai | Meh | Gor | Aws | Med | Hyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| BC-02 | Bodlonrwydd Cwsmer<br>Customer Satisfaction | **9.9** | **9.6** | **9.9** | **10** | **9.8** | **9.5** | **9.7** |
| BC-03 | Amser o dderbyn hysbysiad o strwythur peryglus i fod wedi ei ddiogelu<br>Time from receiving notification of a dangerous structure to "made safe" | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** | **1** |
| BC-04 | Amser o gyflwyno cais "enwi a rhifo tai neu stryd" i cadarnhad ei fod wedi ei gofrestru (dyddiau)<br>Time from receiving "street naming & numbering" application to confirmation of registration (days) | **13** | **4.6** | **11** | **8** | **22** | **14.7** | **10.88** |
| BC-05 | Canran o benderfyniadau wnaethpwyd i'r amserlen statudol o 5 wythnos<br>Percentage of decisions made to the statutory deadline of 5 weeks | **65.0** | **76.8** | **72.4** | **54.0** | **56.4** | **86.8** | **100** |
| | Canran o benderfyniadau wnaethpwyd i'r amserlen statudol o 8 wythnos (pan fod pensaer angen estyniad amser)<br>Percentage of decisions made to the statutory deadline of 8 weeks (when architect requires extension of time) | **93.3** | **94.6** | **94.8** | **92** | **94.9** | **97.3** | **100** |

Diweddarwyd 22/11/19

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 28 Ionawr 2020 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Blant a Chefnogi Teuluoedd |
| **Pwrpas:** | Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Dilwyn Morgan |
| **Swyddog Cyswllt:** | Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Blant a Chefnogi Teuluoedd. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Hoffwn eich atgoffa bod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o dîm rheoli'r Adran Blant a Chefnogi Teuluoedd, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Pwyllgor Craffu.

1.3 Yn gyffredinol rwy'n hapus gyda chynnydd prosiectau yr arweinir arnynt o fewn Cynllun y Cyngor a'r mesurau perfformiad yr wyf yn gyfrifol amdanynt. Serch hynny, daeth yn amlwg y bydd cryn her i geisio gwireddu'r cynlluniau arbedion oedd wedi eu rhaglennu ar gyfer yr Adran. Y rheswm pennaf am hynny, yn anffodus, yw oherwydd y galw cynyddol sydd arnom i dderbyn mwy o blant i mewn i ofal y Cyngor.

**2 Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**3 PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023**

3.1 **Strategaeth Cefnogi Teuluoedd**

Adnabod y galw am gefnogaeth i deuluoedd, a mapio pa ddarpariaethau sydd ar gael i gefnogi teuluoedd ar draws adrannau'r Cyngor yw pwrpas y prosiect hwn. Rydym eisoes wedi cyflawni'r rhaglen waith tymor byr, gan

**Cyswllt:**
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

sefydlu Hwb Teulu Gwynedd sy'n rhoi gwybodaeth i deuluoedd am pa gefnogaeth all y Cyngor ei gynnig.

Fis Mai 2018 fe wnaeth Arolygaeth Gofal Cymru (AGC) gynnal Arolwg o wasanaethau plant y Cyngor, gan ganfod "fod gan y gwasanaethau plant gryfderau sylweddol a gweithlu ymroddedig a sefydlog sy'n ymateb i lwyth gwaith cynyddol". Cynhaliwyd Weithgaredd Ffocws dilynol gan AGC fis Hydref 2019 i edrych ar rai elfennau o wasanaethau'r Adran, a dyma'u canfyddiad o'r gwaith o ddatblygu Hwb Teulu Gwynedd (IAA) - "Gwelsom nifer o enghreifftiau o'r Awdurdod Lleol yn cyd-weithio yn effeithiol â phartneriaid statudol a'r trydydd sector, a'r canlyniad hynny yn creu gwelliannau ym mywydau plant a'u teuluoedd."

Ein blaenoriaeth ar gyfer gweddill y flwyddyn bresennol felly fydd cytuno ar weledigaeth glir gyda'n partneriaid allweddol megis y Bwrdd Iechyd, ein cymunedau a'r trydydd sector, er mwyn sicrhau ein bod yn cyd-gynllunio ein gwasanaethau i deuluoedd. Bydd hi hefyd yn allweddol bod y gwaith yn plethu i mewn gyda'r dysgu ehangach fydd yn dod o'r gwaith Ffordd Gwynedd sydd yn digwydd o fewn yr Adran a'r gwaith cysylltiol i'r Bwrdd Cefnogi Pobl.

3.2 **Cefnogi Llesiant Pobl**

Mae adroddiad ar ddatblygiad y gwaith ar y prosiect hwn hefyd wedi ei gyflwyno i'r cyfarfod hwn o'r Cabinet o dan y teitl 'Adroddiad Perfformiad yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd ar y Byrddau Rhaglen'. Yn hytrach nag ail-adrodd rwyf felly'n eich cyfeirio at gynnwys yr adroddiad hwnnw.

**4. PERFFORMIAD A MESURAU**

4.1 O ran Perfformiad yr Adran, mae'r mesurau yn parhau i awgrymu perfformiad cadarn o ran ymarfer a threfniadau diogelu.

4.2 Un o'r cynlluniau newydd cyffrous sydd ar y gweill yn y **maes Blynyddoedd Cynnar** yw ymestyn gwaith sgrinio teclyn Welcomm i ysgolion o fewn ardaloedd y cynllun Dechrau'n Deg. Mae hwn yn waith sy'n ceisio gwella datblygiad iaith plentyn, ac mae'r canlyniadau cychwynnol yn addawol. Mae'r Adran wedi cyflwyno cais grant er mwyn i therapyddion iaith gydweithio ag ymwelwyr iechyd a datblygu'r ddarpariaeth ymhellach.

4.3 Llwyddiant arall sy'n deillio o'r cynllun Dechrau Deg yw'r prosiect **Pontio'r Cenedlaethau**. Cafwyd 6 sesiwn yn ddiweddar i ddod â thrigolion cartref gofal Bryn Seiont i fwynhau gweithgareddau ynghyd â phlant meithrinfa Plas Pawb yng Nghaernarfon. Gallwch fod yn sicr fod pawb wedi cael budd a mwynhad o'r profiad. Mewn holiadur i rieni plant sy'n mynychu meithrinfa Plas Pawb, dywedodd 4% eu bod yn 'fodlon' gydag adeilad a chyfleusterau'r feithrinfa, gyda'r 96% yn weddill yn dweud eu bod yn 'fodlon iawn'.

4.4 Un rhwystr, yn anffodus, sy'n ein wynebu yw bod llawer o waith yn y maes blynyddoedd cynnar yn ddibynnol ar dderbyn grantiau, yn aml gan

Lywodraeth Cymru. Gan ein bod yn derbyn y cyllid hwn am gyfnod byr, mae hi'n mynd yn anos wedyn i ni gadw staff profiadol am gyfnod hir oherwydd na allwn gynnig cytundebau tymor hir neu barhaol iddynt. Mae'r teuluoedd yn eu tro yn colli allan oherwydd mae sefyllfaoedd yn codi pan eu bod wedi magu perthynas dda gyda'n gweithwyr, dim ond i weld y gweithiwr wedyn yn symud ymlaen, a'r ansicrwydd a ddaw o gychwyn o'r newydd gyda gweithiwr newydd. Cytunwyd y byddai'r rheolwr yn edrych ar y sefyllfa ymhellach gyda'r Pennaeth Adran, gyda'r bwriad o ddatrys y mater mor fuan a phosib.

4.5 Mae'r **Gwasanaeth Ieuenctid** wedi bod yn adolygu ei waith dros gyfnod o thua blwyddyn ar ffurf y model newydd o ddarparu gwasanaeth. Maent yn ffyddiog eu bod yn darparu'r gwasanaeth y mae'r bobl ifanc ei eisiau, ac fe ddarparwyd 1,277 o sesiynau ar draws y sir rhwng Ebrill a diwedd Medi. Un newid gweddol ddiweddar sydd wedi dod i'r amlwg yw bod mwy a mwy o bobl ifanc gydag ymddygiadau heriol yn dod i sylw'r gwasanaeth, ond mae'r her hon yn cael ei chroesawu gan ei bod yn gyfle i'r gwasanaeth geisio eu helpu. Er yr her hon, mae'r gwasanaeth a finnau o'r farn bod angen i ni ddathlu llwyddiannau ein pobl ifanc, yn hytrach nag edrych ar elfennau negyddol, a byddwn yn meddwl am sut i amlygu'r llwyddiannau i'r dyfodol.

4.6 O ran y **Gwasnaethau Gweithredol**, mae pwrpas clir gan y gwasanaeth ac adroddwyd bod cynnydd yn cael ei weld o ran y nifer o achosion yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth a hefyd cymhlethdod achosion yn gyffredinol. Mae nifer o'r cyfeiriadau yn cael eu gweld yn gyfeiriadau "anghywir" gan asiantaethau eraill, a bwriad y gwaith sydd ar gychwyn o ran ymyrraeth Ffordd Gwynedd yw helpu i sicrhau bod hyn yn cael ei gyfarch. Mae'n debyg mai un o'r prif rwystrau sydd wedi eu hamlygu yn ddiweddar ydi'r diffyg mynediad at gefnogaeth llesiant emosiynol i blant a phobl ifanc. Mae trafodaethau wedi cychwyn gyda'r Bwrdd Iechyd i geisio edrych ar y mater ar y cyd. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth wedi adnabod bod angen gwella trefniadau o gael mynediad amserol at gefnogaeth i rieni gydag anhawsterau iechyd meddwl. Mae'r rheolwyr yn trafod gyda'r rheolwr perthnasol yn yr Adran Oedolion a bydd hefyd yn sicrhau bod hwn yn cael ei amlygu fel rhan o waith y Bwrdd Cefnogi Pobl.

4.7 Mae'r Gwasanaeth Gweithredol yn ceisio ymateb i'r rhwystrau sydd wedi eu hamlygu gan ddatblygu ac ehangu'r math o sgiliau sydd gan y gweithlu i ymdopi â chynnal teuluoedd.

4.8 Yn anffodus, mae'n rhaid i mi adrodd unwaith eto bod y **nifer o blant sy'n dod i mewn i ofal y Cyngor** yn cynyddu. Ar ddiwedd Rhagfyr 2019 roedd 284 o blant yng ngofal y Cyngor, sy'n gynnydd o 13% ar y niferoedd oedd mewn gofal 12 mis ynghynt. Mae'r niferoedd o blant mewn gofal wedi cynyddu'n flynyddol ers 2013/14 ac, ar hyn o bryd, mae'n edrych yn annhebygol y bydd y tueddiad yn newid. Fel bydd aelodau'n ymwybodol, mae gwaith parhaus yn digwydd er mwyn ceisio sicrhau bod y gefnogaeth briodol ar gael i deuluoedd er mwyn ceisio sicrhau bod plant yn gallu aros gyda'u rheini yn ddiogel. Yn ogystal derbyniwyd wybodaeth am y trefniadau sydd yn eu lle ar gyfer rheoli yr achosion plant mewn gofal yn

effeithiol. Dylwn nodi hefyd bod gwaith ataliol pwysig yn cael ei gynllunio er mwyn ceisio lleihau'r galw am leoliadau all-sirol yn y lle cyntaf. Rydym wedi cyflwyno cais grant i greu tîm aml-asiantaethol ar y cyd â Môn fydd yn cydweithio â theuluoedd yn bennaf er mwyn lleihau'r tebygrwydd y byddai angen i blant ddod i ofal all-sirol.


4.9 Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld y nifer o blant mewn gofal yn gostwng, ac er nad ydym fel Sir wedi gosod targed ar gyfer lleihau y nifer, mae holl ymdrechion yr Adran yn cylchdroi o gwmpas sicrhau cefnogaeth amserol a phriodol i deuluoedd er mwyn eu cadw'n wydn ac iach. Byddaf yn gweithio'n agos efo'r Adran ar eu gwaith yn y maes hyn.

4.10 Ar hyd yr un llinellau, mae'r niferoedd o alwadau sy'n ein cyrraedd er mwyn cofnodi pryder am **ddiogelwch plentyn** yn cynyddu. Derbyniwyd 2,981 o gysylltiadau yn ymwneud â diogelwch plant rhwng Ebrill a Medi 2019, ac mae'r nifer yma'n uwch na'r un cyfnod llynedd, felly gallwn ragweld y bydd cyfanswm y flwyddyn yn uwch hefyd.

4.11 Rwyf eisoes wedi cyfeirio at broblemau sy'n codi o fethu cadw staff profiadol, ond bellach mae hi hefyd yn dechrau bod yn broblem i **recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol** cymwys. Mae llai o fyfyrwyr yn dewis dilyn y cwrs mewn prifysgolion bellach, ac felly gallwn wynebu sefyllfa yn y dyfodol agos ble nad oes gennym ddigon o weithlu cofrestredig, ac yn enwedig weithlu sy'n medru'r Gymraeg. Bydd angen i ni feddwl yn greadigol, ac ystyried opsiynau eraill megis datblygu ein staff ein hunain, ac i'r perwyl hwn mae'r Adran wedi cychwyn trafodaethau o ran prentisiaethau ac opsiynau tebyg, a bydd adroddiad o'r Uned Datblygu'r Gweithlu Gofal yn cael ei baratoi i geisio amlygu'r opsiynau i'r Adran.

4.12 Bu i **gartref Hafan y Sêr** gomisiynu adolygiad annibynnol o farn rhieni a phlant o'r gofal a'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig yno. Daeth adborth clir fod y gwasanaeth yn llwyddo i gyflanwi ei bwrpas, sef rhoi ysbaid, hwyl a mwynhad i blant, ac ysbaid i rieni sy'n gwybod fod eu plant yn ddiogel yno ac yn cael pob gofal. Mae'r adborth yma yn atgyfnerthu negeseuon o'r Archwiliad AGC a gwaith gwarantu ansawdd adroddiad Ansawdd Gofal blaenorol.

4.13 Ar ddiwedd Medi 2019, roedd 70% o'r 265 o blant a oedd mewn gofal mewn **lleoliadau maeth**, sy'n gynnydd o 5% ar y cyfnod rhwng Ebrill a Mehefin. O'r canran hwn roedd 34% o'r gofalwyr yn deulu neu'n ffrindiau ac roedd 20% o blant wedi gallu aros gyda'u rhieni tra'n parhau o dan ofal y Cyngor. Mae hi'n parhau yn bryder i ni ar hyn o bryd nad oes gennym ddigon o leoliadau maeth cyffredinol i ateb y galw yn llawn o fewn ein adnoddau ein hunain. Mae holl bwysig ein bod yn cadw y gofalwyr maeth sydd gennym ac yn parhau i recriwtio gofalwyr o'r newydd. Mae'r Gwasanaeth Maethu yn cynnal adolygiad o'n trefniadau ni fel Cyngor, a'r cyd-destun sydd yn cael ei roi gan y Fframwaith Maethu Cenedlaethol, gyda'r bwriad o weld os fedrwn ni gwrdd ag anghenion y plant a'r gofalwyr yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl. Byddaf yn gallu adrodd ar ganlyniadau'r gwaith hyn erbyn fy adroddiad perfformiad nesaf.




4.14 Pwrpas **Gwasanaeth Derwen** yw cynnig gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd. Bu nifer o achosion dwys a chymhleth yn derbyn sylw dros y cyfnod diweddar, gan gynnwys ceisiadau ar gyfer addasiadau tai. Mae prinder cyffredinol o dai addas, neu'r posibilrwydd o addasu cartrefi presennol, yn gwneud y gwaith hwn yn heriol tu hwnt, ond mae'r adran yn cydweithio'n agos bellach gyda'r Adran Tai ac Eiddo i ganfod y datrysiadau gorau posib i'r plant a'u teuluoedd, a dwi'n falch o adrodd bod adborth positif iawn wedi ei dderbyn o ran y cynnydd sydd wedi ei wneud yn symud achosion yn eu blaenau.

4.15 Mae diffygion staffio yn y **Gwasanaeth Ôl-16** hefyd wedi creu sefyllfa heriol iawn yn ddiweddar, yn enwedig gan fod rhai achosion unigol wedi gofyn am gefnogaeth ddwys. Er hyn, rwy'n hyderus bod y gwasanaeth wedi llwyddo i barhau ag ymweliadau statudol ar gyfer y bobl ifanc hynny sydd yng nghofal y Cyngor. Rydym fel Cyngor yn cefnogi pobl ifanc tan eu bod yn 25 oed, ac mae 44 allan o'r cyfanswm o 155 rhwng 21 a 25 oed, sy'n dangos ymrwymiad i barhau â chefnogaeth i'r bobl ifanc yma.

4.16 Mae perfformiad yr **Uned Diogelu ag Ansawdd** yn parhau'n dda, er fel nifer o'r gwasanaethau eraill fe welwyd cynnydd yn y galw a chymhlethdod achosion. Bu cynnydd mewn cynadleddau achos rhwng Gorffennaf a diwedd Medi o'i gymharu â rhwng Ebrill a Mehefin, gan gynnal 52 (fyny o 47) o rai cychwynnol, a 62 (fyny o 53) o rhai adolygol. Cynhaliwyd 96% o'r rhai cychwynnol o fewn yr amserlen dynodedig (fyny o 89%) a 82% o'r rhai adolygol o fewn yr amserlen dynodedig (fyny o 75%) – felly er y pwysau ar staff, mae defnydd o ymgynghorydd allanol wedi ysgafnhau y baich.

4.17 Mae diffyg capasiti staffio yn gallu arwain at oedi wrth gynnal adolygiadau - gweler mesurydd ***SCC021 Canran yr adolygiadau plant mewn gofal wedi eu cynnal o fewn amserlen statudol yn ystod y flwyddyn.*** Roedd y ganran yma'n 86% rhwng Ebrill a Mehefin, ac yn 87% rhwng Gorffennaf a Medi. Mae'r perfformiad, ar hyn o bryd, yn wellhad ar berfformiad diwedd 2018/19 sef 85%, ond mae'r Adran yn parhau i geisio gwella'r sefyllfa.

4.18 Nodwyd hefyd cryn her o ran cael lleoliadau addas ar gyfer cynnal cynadleddau amddiffyn plant o ran preifatrwydd a chyfrinachedd, ac mae

trafodaethau yn digwydd gyda'r Adran Tai ac Eiddo i geisio gwella'r sefyllfa.

## 5 SEFYLLFA ARIANNOL/ ARBEDION

5.1 Fel yr ydych yn ymwybodol, oherwydd i mi adrodd mewn adroddiadau blaenorol, mae'r adolygiad 'Dechrau i'r Diwedd' wedi bod yn destun adolygiad ar y cyd rhwng yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, yr Adran Cyllid a'r Rheolwr Ymchwil a Gwybodaeth. Daeth yn amlwg bod angen ail ymweld â'r cynllun arbedion gwreiddiol gan ei fod yn rhy uchelgeisiol yn sgil newid yn yr hinsawdd bresennol o fewn y maes plant. Mae proffil poblogaeth plant mewn gofal wedi newid, cyfartaledd cost lleoliadau preswyl wedi cynyddu, cymhlethdodau achosion, a lleihad mewn cyfraniadau ariannol gan y maes iechyd oll yn cyfrannu at sefyllfa ble mae'n anodd iawn torri costau.

5.2 Roedd 18 o bobl ifanc Gwynedd mewn lleoliadau all-sirol rhwng Ebrill ac Awst 2019, o'i gymharu â 13.6 yn 2017/18 a 14.3 yn 2018/19. Mae cost ariannol uchel i bob lleoliad, ac rydym yn wynebu sefyllfa o or-wariant yn hytrach na sefyllfa o fedru cynnig arbedion. Mae Tasglu Cyllideb Plant bellach wedi ei sefydlu er mwyn rhoi sylw i holl faterion ariannol yr Adran, ac fe fydd yn adolygu'r cynlluniau arbedion.

5.3 Dylwn nodi hefyd bod gwaith ataliol pwysig yn cael ei gynllunio hefyd er mwyn ceisio lleihau'r galw am leoliadau all-sirol yn y lle cyntaf. Rydym wedi cyflwyno cais grant i greu tîm aml-asiantaethol ar y cyd â Môn fydd yn cydweithio â theuluoedd yn bennaf er mwyn lleihau'r tebygrwydd y byddai angen i blant ddod i ofal all-sirol.

5.4 Er yr uchod, rwy'n falch o fedru adrodd bod cynlluniau arbedion eraill ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol ar drac i gyflawni'n amserol.

## 6 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

6.1 Dim i'w nodi.

## 7 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

7.1 **Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i’w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Roedd adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid ar sefyllfa cyllideb refeniw 2019/20 fel yr oedd ar ddiwedd Tachwedd 2019, a gyflwynwyd i’r Cabinet ar 21 Ionawr, yn nodi fod lefel gorwariant yr Adran Plant a Theuluoedd wedi dwysáu ymhellach eleni i £3.2 miliwn. Eglurwyd hefyd fod tasglu Cyllideb Plant eisoes wedi ei sefydlu i roi sylw i faterion ariannol dyrys y maes. Mae rhan 5 yr adroddiad perfformiad hwn yn ymhelaethu ar y risgiau sydd ynghlwm â’r cynlluniau arbedion perthnasol; rwyf yn fodlon fod rhan 5 yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o’r sefyllfa.

7.2 **Barn yr Aelod Lleol:**

7.2.1 Ddim yn fater lleol.

7.3 **Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

7.3.1 Dim i’w nodi.

---

**Atodiadau**

Atodiad 1 – Mesurau Perfformiad

**ATODIAD 1**

Mesurau Perfformiad yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

| **CYFEIRNOD** | **MESUR** | **PERFFORMIAD 1/7/19 –30/9/19** |
|---|---|---|
| SCC021 | Canran yr adolygiadau plant sy'n derbyn gofal wedi eu cynnal o fewn amserlen statudol yn ystod y flwyddyn | 87% |
| PMC34a | Canran y rhai sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth – 12 mis ar ôl gadael gofal | 63% |
| PMC34b | Canran y rhai sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth – 24 mis ar ôl gadael gofal | 100% |
| PMC33 | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael 3 lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn | 3% |
| SCC014 | Canran y cynadleddau amddiffyn plant dechreuol oedd i fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn wedi eu cynnal o fewn 15 diwrnod gwaith i'r drafodaeth strategaeth | 96% |
| SCC034 | Canran yr adolygiadau amddiffyn plant yn cael eu cynnal o fewn yr amserlen statudol yn ystod y flwyddyn | 82% |

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **28 Ionawr 2020** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Cemlyn Williams** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Dilwyn Williams, Prif Weithredwr** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679 685** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Addysg** |

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

**1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

1.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

1.2. Cymeradwyo y cynlluniau arbedion amgen sydd yn rhan 5 o'r adroddiad.

**2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

2.1 Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

**3 CYFLWYNIAD**

3.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Addysg. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau.

3.2 Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2018-23, yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd hyd at ddiwedd Tachwedd 2019.

3.3 Rwyf am eich atgoffa bod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod Herio Perfformiad.

3.4 Ar y cyfan, rwyf yn hapus gyda pherfformiad yr adran a byddaf yn ymhelaethu ar y cynnydd yn yr adroddiad.

**4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

**4.1 PERFFORMIAD PROSIECTAU CYNLLUN Y CYNGOR**

**4.2 Cryfhau Arweinyddiaeth**

4.2.1 Pwrpas y prosiect ***Cryfhau Arweinyddiaeth*** yw i annog a hyrwyddo datblygiad proffesiynol arweinwyr presennol ein hysgolion gan sicrhau eu bod yn dilyn rhaglen briodol o ddysgu proffesiynol.

4.2.2 Mae'r prosiect Uwchradd Meirionnydd yn edrych ar sicrhau bod ansawdd yr addysg yn gyson dda ac yn gynaliadwy i'r dyfodol yn ysgolion uwchradd Meirionnydd. Mae'r gwaith yn rhedeg yn unol â'r amserlen gyda thrafodaethau wedi eu cynnal gyda

phenaethiaid er mwyn trafod y sefyllfa a chytuno ar ffrydiau gwaith; ac mae ymgynghorwyr wedi eu comisiynu i gynhyrchu adroddiad yn sgil y trafodaethau gyda'r penaethiaid. Byddaf yn eich diweddaru ar hyn maes o law.

4.2.3. Erbyn hyn mae trefniadau y prosiect Cryfhau Arweinyddiaeth wedi cyrraedd sefyllfa lle mae gennym hyder bod y trefniadau a sefydliwyd ar y cyd gyda Gwe i sicrhau bod ansawdd ein harweinyddiaeth yn yr ysgolion yn addas. Felly fel rhan o adolygiad Cynllun y Cyngor byddwn yn cau y prosiect hwn, ac bydd y trefniadau monitro yn symud i fod yn rhan o waith dydd i ddydd yr Adran.

**4.3 Rhaglen Ysgolion 21 Ganrif**

4.3.1 Mae'r **Rhaglen Ysgolion 21 Ganrif** yn cynllunio a gwireddu prosiectau arloesol i addasu ysgolion, neu adeiladu ysgolion newydd er mwyn i blant a phobl ifanc Gwynedd gael eu haddysgu yn yr amgylchedd dysgu gorau posibl.

4.3.2 Mae'r gwaith ymchwil ar y **ddarpariaeth addysg ôl-16** yn mynd rhagddo gyda sawl elfen eisoes wedi eu cwblhau. Bwriedir cyflwyno casgliadau'r ymchwil mewn adroddiad gerbron y Cabinet.

4.3.3 Mae gwaith adeiladu ysgol newydd i'r Garnedd yn parhau yn unol â'r amserlen, ac mae gwaith wedi cychwyn i gytuno ar y trefniadau ar gyfer trosglwyddo i'r safle newydd.

4.3.4 Mae trefniadau ar gyfer rheolaeth prosiect Ysgol Ein Harglwyddes wedi eu cytuno gyda'r Esgobaeth, sy'n golygu bydd Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am redeg y prosiect a chyflwyno'r achos busnes. Mae gwaith dichonoldeb cychwynnol wedi'i gwblhau i adnabod yr anghenion ar gyfer safleoedd posibl i leoli adeilad newydd yr Ysgol. Bydd angen cytuno ar safle ffafredig yn dilyn trafodaethau ac asesiadau pellach ac yna cyflwyno achos busnes er mwyn cadarnhau cyfraniad cyfalaf Llywodraeth Cymru.

**4.4 Trawsnewid y Ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad**

4.4.1 Pwrpas y prosiect hwn yw trawsnewid y gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad, er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd ei angen yn derbyn y gefnogaeth fwyaf addas i'w galluogi i gyflawni eu potensial.

4.4.2 Yn ystod y flwyddyn cafodd 3 achos yn herio datganiad plentyn ei gyflwyno i Dribiwnal, enillodd yr Awdurdod Lleol y 3 tribiwnal sydd yn gadarnhaol iawn o ystyried yn genedlaethol fod 89% o achosion yn methu. Rydw i o'r farn fod y mesurydd yma yn un defnyddiol, felly byddaf yn gofyn i'r Adran adrodd ar hyn yn y dyfodol.

4.4.3 Ers mis Medi mae'r System Cynllun Datblygu Unigol ar gael ar-lein i bob ysgol, mae'r system yn galluogi cyd-awduro rhwng ysgol, rhiant ac asiantaethau eraill.

4.4.4 Gwelir lleihad yn yr "Oriau Darpariaeth ADY" (Tabl 1), daw hyn yn sgil proses monitro parhaus o'r cymorth sy'n cael ei ddarparu i blant. Yn y gorffennol byddai plant wedi cadw darpariaeth am gyfnod hir, ond drwy adolygu'r sefyllfa yn barhaus mae'r ddarpariaeth yn newid yn ôl yr angen. Golyga hyn fod newid yn y diwylliant gyda ysgolion yn gwneud gwell defnydd o'i adnoddau. Rydw i yn hyderus fod newid yn y broses yma yn cyfrannu tuag at sicrhau fod plant yn cael yr addysg gorau posibl.

**4.5 Strategaeth a Siarter Iaith**

4.5.1 Pwrpas y prosiect yw hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd i

ddefnyddio'r Gymraeg.

4.5.2 Mae'n ymddangos fod y Siarter Iaith yn parhau i greu baich gwaith i benaethiaid, ac rydym yn gobeithio bydd cyfle i ail-edrych ar hynny yn sgil Fframwaith Siarter Iaith Llywodraeth Cymru fydd yn dod i rym ym Medi 2020. Mae'n ymddangos fod y We Iaith Gynradd yn dangos cynnydd yn nefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg. Nodwyd fod Arolygon Estyn bellach yn rhoi sylw i ddefnydd anffurfiol o'r Gymraeg, a byddaf yn ystyried hynny ochr yn ochr â'r we iaith i'r dyfodol.

**4.6 GWAITH DYDD I DDYDD YR ADRAN ADDYSG**

4.6.1 Sefydlwyd y **Ganolfan Fusnes Ysgolion** yn mis Medi 2019 er mwyn cynnig gwasanaethau i Ysgolion y Sir. Mae'r Ganolfan yn cynnig nifer o wasanaethau gan gynnwys rheolaeth ariannol, gweinyddu penodiadau, trefnu athrawon llanw a sicrhau fod system SIMS yn gyfredol. Mae'r Ganolfan wedi adnabod 3 blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn, ac ar hyn o bryd ar darged i gyflawni yn unol â'r Cynllun Busnes. Mae'n gadarnhaol iawn fod holl ysgolion cynradd Gwynedd yn prynu mewn i'r gwasanaeth, ac yn gweld gwerth er mwyn sicrhau fod prosesau yn cael ei dilyn yn gywir. Rydw i yn awyddus i ni allu tystiolaethu gwerth y gwasanaeth, felly rydw i wedi gofyn i'r adran edrych ar hyn a byddaf yn adrodd arno yn y dyfodol.

4.6.2 Mae **prosiect TRAC** yn gynllun sydd â'r nod i leihau'r risg o blant yn gadael Blwyddyn 11 ac allan o addysg, hyfforddiant a gwaith, drwy gynnig darpariaeth sydd wedi ei deilwra i unigolion. Ar hyn o bryd mae 284 o unigolion ar agor i'r cynllun, gyda 67 arall yn aros i dderbyn cefnogaeth. Yn dilyn peilota'r gefnogaeth TRAC gyda disgyblion Blwyddyn 6 yn y cynradd rhwng Ebrill a Medi 2019, mae'r cynllun wedi ymestyn ers mis Tachwedd gyda 28 o gyfeiriadau o flwyddyn 6 wedi eu derbyn. Yn dilyn y peilot roedd yr Ysgolion Cynradd ac Uwchradd yn adrodd fod budd i'r gefnogaeth, a byddaf yn monitro'r cynnydd yn sgil ymestyn y cynllun.

4.6.3 Gan fod prosiect TRAC yn gynllun wedi ei gyllido gan gronfa Ewrop bydd yn dod i ben yn ystod 2022, ac rydw i wedi nodi'r angen i ystyried sut fydd y ddarpariaeth yn plethu gyda chynhwysiad yn y dyfodol. Byddaf yn cyfeirio hyn ymlaen i'r Bwrdd Cefnogi Pobl.

4.6.4 Pwrpas y **Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau** yw darparu bwyd maethlon ac iachus i ddisgyblion Ysgolion Gwynedd a chadw'r sefydliadau addysgol yn lân a diogel er mwyn cynorthwyo'r disgyblion gyrraedd eu potensial. Mae niferoedd plant sydd yn cael cinio ysgol *(Tabl 2)* yn lleihau dros amser, er mwyn ceisio deall y rhesymau am hynny cafodd Holiadur ei rannu gyda rhieni er mwyn casglu barn ar y cinio ysgol. Derbyniwyd nifer o ymatebion a bydd rhain yn cael eu rhannu yn fuan. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn gynnar yn y flwyddyn er mwyn ystyried pris cinio ysgol ar gyfer 2020/21.

4.6.5 Bu i'r Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau weithio efo Ysgol Dolbadarn er mwyn edrych ar leihau y defnydd o blastig mewn Ysgolion. Erbyn hyn mae pob ysgol gynradd wedi newid i'r drefn newydd o dywallt llefrith o boteli mawr i gwpanau yn hytrach na rhoi potel unigol i'r plant. Mae cael gwared â'r poteli 189ml yn golygu fod 67% yn llai o ddefnydd o blastig sy'n cyfateb i dros 7,000kg.

4.6.6 Mae'r Adran yn darparu **Canolfannau Iaith** ar draws y Sir. Mae cynllun peilot ar waith yng Nghanolfan Iaith Maesincla, lle mae strwythur staffio o athro a chymhorthydd yn cael ei dreialu. Penodwyd y Tîm Ymchwil i wneud darn o waith yn edrych ar bob Canolfan Iaith, gan ganolbwyntio ar gynnydd ieithyddol y plant, bydd hyn yn gosod sail i fesur effaith y cynllun peilot. Yn dilyn cwblhau'r ymchwil bydd

adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet er mwyn cytuno ar y camau nesaf.

4.6.7 Rydw i yn bryderus gan nad oes un o'r Canolfannau Iaith yn llawn y tymor hwn, yn ogystal a'r pryder o diffyg niferoedd yn y Ganolfan Iaith Uwchradd yn mis Ionawr. Byddaf yn cadw golwg ar hyn i'r dyfodol.

**4.7 PROSIECTAU DI-GYFALAF**

4.7.1 Yn sgil cwymp sylweddol yn niferoedd **Ysgol Llanaelhaearn**, a phenderfyniad y Cabinet i gychwyn cyfnod ymgynghori statudol ar y cynnig i gau yr Ysgol. Mae'r cyfnod ymgynghori statudol wedi cychwyn, ac bydd yn dod i ben ar 29/01/2020.

**5 SEFYLLFA ARIANNOL / ARBEDION**

**5.1 Cynlluniau Arbedion 2016/17**

5.1.1 Mae un cynllun arbedion 2016/17 ar ôl i'w gyflawni sef *Ffordd Gwynedd – Uned Cyflogau a Chontractau.* Mae bid wedi ei gyflwyno ar gyfer adnoddau ychwanegol i gyflymu'r gwaith ar y cynllun, ond yn y cyfamser mae'r Adran yn pontio'r diffyg o £28,681

5.1.2 **Cynlluniau Arbedion 2017/18, 2018/19 & 2019/20**

5.1.3 Mae dau gynllun lle nad yw'n bosibl bellach i wireddu'r arbedion unai yn llawn neu yn rhannol.

5.1.4 Y cyntaf yw *Lleihau amser a/neu godi ffi am yr elfen gwarchod o fewn y cynllun brecwast am ddim i blant ysgolion cynradd* gwerth £100,000, ac yr ail gynllun yw *Cynyddu ffi am y clwb gofal cyn ysgol* gwerth £10,000 Seilwyd yr amcangyfrif ar y rhagdybiaeth y byddai'r cynllun gofal yn denu incwm gwerth £190,000 a hynny ar sail ymchwil gwreiddiol gyda rhieni oedd yn awgrymu y byddai galw am y gofal. Yn anffodus bu gostyngiad yn y gofyn ac o ganlyniad mae'r defnydd wedi gostwng 62%.

5.1.5 Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 21 Tachwedd 2019, yn yr adroddiad amlygwyd fod y ddau gynllun amgen i ddileu'r cynlluniau arbedion uchod. Yn dilyn adolygiad diweddar o'r Gyllideb Addysg, gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'n cynllun amgen sef defnyddio tan wariant y gyllideb 'Disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n mynych Ysgolion All-Sirol' i ddileu'r cynlluniau arbedion uchod.

5.1.6 Mae'n bwysig nodi bydd defnydd y clybiau gofal/brecwast yn cael ei adolygu yn barhaus, ac os bydd achosion o niferoedd isel afresymol yna byddai'n rhaid ymateb i'r sefyllfa ac amlygu arbediad fyddai'n gallu cael ei ail fuddsoddi.

**6 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

**6.1 Barn y Swyddogion Statudol:**

**Y Swyddog Monitro**

"Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."

**Y Pennaeth Cyllid**

"Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa'r Adran Addysg o ran gwireddu'r cynlluniau arbedion, gyda nifer o gynlluniau arbedion eisoes wedi eu gwireddu neu ar drac i wireddu'n amserol.  Serch hynny, mae'r penderfyniad a geisir yn cynnwys cyflwyno cynllun amgen er mwyn gwireddu arbedion yr Adran Addysg; rwyf yn fodlon fod y cynllun amgen yn rhesymol a phriodol.

Bydd swyddogion Cyllid yn parhau i gynorthwyo’r Aelod Cabinet i fonitro’r cynnydd yn erbyn yr holl gynlluniau.”


**ATODIADAU:**

**Atodiad 1** Mesurau’r Adran Addysg


# MESURAU'R AELOD CABINET ADDYSG

(hyd at ddiwedd Hydref/Tachwedd 2019)

Tabl 1:



Tabl 2:


Niferoedd Plant sy'n cael Cinio Ysgol
5400
5200
5000
4800
4600
4400
4200
4000
60.00%
58.00%
56.00%
54.00%
52.00%
50.00%
48.00%
46.00%
44.00%
42.00%
40.00%
Sep-16
Oct-16
Nov-16
Dec-16
Jan-17
Feb-17
Mar-17
Apr-17
May-17
Jun-17
Jul-17
Aug-17
Sep-17
Oct-17
Nov-17
Dec-17
Jan-18
Feb-18
Mar-18
Apr-18
May-18
Jun-18
Jul-18
Aug-18
Sep-18
Oct-18
Nov-18
Dec-18
Jan-19
Feb-19
Mar-19
Apr-19
May-19
Jun-19
Jul-19
Aug-19
Sep-19
Oct-19
Cyfartaledd dyddiol o brydau sydd wedi ei darparu
% o holl ddisgyblion cynradd sydd wedi derbyn cinio

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 28 Ionawr 2020 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet Tai ac Eiddo |
| **Pwrpas:** | Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Craig ab Iago |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar berfformiad y gwasanaethau hynny yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet Tai. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023 a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Hwn yw'r adroddiad cyntaf ar waith yr Adran Tai ac Eiddo ers iddi ddod yn weithredol fis Medi 2019.

1.3 Hoffwn eich atgoffa bod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o dîm rheoli'r Adran Tai ac Eiddo, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Pwyllgor Craffu.

1.4 Yn gyffredinol rwy'n hapus gyda chynnydd prosiectau yr arweinir arnynt o fewn Cynllun y Cyngor a'r mesurau perfformiad yr wyf yn gyfrifol amdanynt.

**2 Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**3 PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023**

3.1 **Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd 2019-2024**

Mabwysiadwyd 'Strategaeth Tai Gwynedd 2019-2024' gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 18 Gorffennaf 2019, ac mae'r gwaith i wireddu elfennau ohono eisoes wedi cychwyn.



**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

Yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol rydym yn cynnal asesiad budd-cost ar y cynlluniau sydd yn y Strategaeth, er mwyn sicrhau ein bod yn targedu'r gweithgareddau hynny a gaiff yr ardrawiad mwyaf ar drigolion Gwynedd.

Yn y cyfamser rydym hefyd wedi cychwyn ariannu cynlluniau megis Llety Pwrpasol (PODS unedau llai); dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd; a chynllun i bobl bregus adfer a gwella cyflwr eu tai. Mae'r gwaith i wireddu'r Strategaeth yn greiddiol i holl waith yr Adran, a felly mae manylion pellach i'w gweld yn y disgrifiad o'r 'Perfformiad' isod.

4 **PERFFORMIAD**

**TAI**

4.1 Ers 2015/16 pan ddaeth Deddf Tai (Cymru) 2014 i rym mae'r **Gwasanaeth Digartrefedd** wedi gweld cynnydd graddol blynyddol yn nifer yr unigolion yn cyflwyno eu hunain i'r Cyngor yn ddigartref (o 560 yn 14/15 i 768 yn 18/19).

4.2 Mae'r gwasanaeth yn ceisio atal digartrefedd yn y lle cyntaf, ond os yw'n dod yn realiti i unigolion, maent wedyn yn ceisio canfod rhywle arall i fyw iddynt. Dros y cyfnod ers dechrau'r flwyddyn **fe gymerwyd 166 o ddiwrnodau ar gyfartaledd i ni ddatrys y broblem a osodwyd i'r gwasanaeth** ond mae hyn yn cynnwys y gwaith atal a'r gwaith canfod lle arall i fyw. Gan nad yw amser gweithredu yn berthnasol i faes atal rwyf wedi gofyn i'r gwasanaeth dynnu'r elfen honno allan o'r ffigyrau amser gweithredu yma.

4.3 **Llwyddwyd i atal digartrefedd mewn 73% o'r achosion**, ac er bod hynny'n aml yn cymryd mwy o amser, mae'n arwain at well canlyniad i'r person neu deulu. Mae'r gwasanaeth yn ymwybodol o'r rhwystrau niferus sydd yn eu hatal rhag gwella'r rhifau yma ac yn gweithredu arnynt. [71% oedd y ffigwr yn 2018/19 oedd yn ein rhoi yn agos at y chwartil uchaf drwy Gymru].

4.4 Diffyg llety un llofft i bobl sengl yw un o'r rhwystrau mwyaf i bobl sydd mewn llety dros dro rhag symud ymlaen i lety parhaol. Mae llety fforddiadwy, yn enwedig i bobl o dan 35 oed, yn parhau yn rwystr cyffredinol i leihau'r tebygolrwydd o fod yn ddigartref yn y lle cyntaf. Mae nifer o'r cynlluniau o fewn Strategaeth Tai Gwynedd, megis Llety â Chefnogaeth i Bobl Ifanc neu'r Cynllun Cefnogi Pobl, yn mynd i gyfrannu at geisio lleihau'r broblem hon.

4.5 Rwy'n credu bod angen i ni wneud gwaith pellach i ddeall yn union ym mha ardaloedd mae'r galw mwyaf am lety, ac i weld os y gallwn glymu'r gwaith o gynllunio llety gyda chynlluniau adfywio economaidd lleol.

4.6 Prosiect newydd cyffrous sydd ar y gweill ers mis Mawrth 2019, ar y cyd â'r asiantaeth trydydd sector Cais a Grwp Cynefin, yw llety 8 llofft ym Mangor sy'n cynnig cefnogaeth i bobl sy'n gadael carchar a phobl ag anghenion dwys sydd wedi bod yn cysgu allan. Drwy gydweithio â'n partneriaid gallwn lwyddo i gynnig y ddarpariaeth y mae ein trigolion ei angen, **a bu'r prosiect**

**yn llwyddiannus yng ngwobrau Cymorth Cymru yn y categori atal digartrefedd a gynhaliwyd fis Tachwedd 2019.**

4.7 Dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd yw un o'r datrysiadau i'r prinder o gartrefi addas. Mae'r **Gwasanaeth Cyflenwad a Gorfodaeth Tai** yn parhau eto eleni i geisio cynyddu'r niferoedd, ac ers mis Ebrill **daethpwyd â 56 o dai gwag yn ôl i ddefnydd** yn sgil ymyrraeth gan y Cyngor, gan greu cartrefi i 115 o bobl. Mae tanwariant arian grant mewn siroedd eraill yng ngogledd Cymru yn golygu bod modd i'r Adran gyflwyno ceisiadau am fwy o gyllid grant gan Lywodraeth Cymru i dalu am ddod a mwy o dai gwag yn ôl i ddefnydd eleni.

4.8 Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnal asesiadau risg er mwyn dileu peryglon mewn cartrefi rhent preifat a thai cymdeithasol, ac hyd at ddiwedd Rhagfyr cynhaliwyd 500-600 o archwiliadau gan **arwain at waith dileu perygl mewn 215 o gartrefi**, gan warchod 620 unigolyn. Rwyf yn trafod gyda'r gwasanaeth a oes modd sicrhau bod trigolion Gwynedd yn gwybod y gallent gysylltu gyda ni os ydynt yn pryderu am gyflwr neu ddiogelwch unrhyw gartref rhent ac y gellir gwneud hynny heb bryder eu bod yn peryglu eu tenantiaeth.

4.9 Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am ddarparu grantiau ar gyfer addasu tai ar gyfer pobl gydag anableddau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu parhau i fyw yn eu cartrefi. Cwblhawyd **54 achos hyd yma eleni a gymerodd 252 diwrnod ar gyfartaledd i'w cwblhau.** Tra bod hyn ychydig yn uwch na'r llynedd (ond yn wellhad ar flynyddoedd a fu) ac yn ein rhoi ar ganol perfformiad cynghorau eraill rwyf wedi teimlo ers cryn amser nad yw'r amser cyfartalog yma yn dderbyniol. Mae'r Gwasanaeth yn gwybod bod diffyg argaeledd therapyddion galwedigaethol yn rhan o'r broblem ond rwyf felly wedi gofyn iddynt gynnal adolygiad Ffordd Gwynedd i ymchwilio'n ddwys i'r llif gwaith er mwyn adnabod yr holl ffactorau sy'n rwystr i fod yn fwy effeithiol.

4.10 Rydym hefyd yn darparu grantiau "galluogi" llai sydd yn helpu i alluogi i berson fyw yn annibynnol yn ei dŷ ei hun. Ers dechrau'r flwyddyn ariannol darparwyd 70 grant ac mae'r **gwaith yma yn cael ei gwblhau mewn 78 diwrnod ar gyfartaledd**.

4.11 Rydym yn derbyn cyllid **Grantiau Tai Cymdeithasol** gan Lywodraeth Cymru sy'n cyfrannu at addasu neu adeiladu cartrefi fforddiadwy. Gwelsom gynnydd yn y grant eleni o £2.1m ond mae'n bryder bod y Llywodraeth eisoes wedi dweud y bydd gostyngiad yn y grant ar gyfer 2020/21. Mae'r grant hwn **eisoes wedi ariannu 17 o unedau fforddiadwy yng Ngwynedd** eleni, gyda 81 uned pellach i'w cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn. Mae gennym hefyd gynlluniau wrth gefn ar gyfer cyfanswm o 243 o unedau eraill y gallwn eu hadeiladu petai mwy o gyllid ar gael.

**EIDDO**

4.12 Mae holl unedau gwasanaeth eiddo yn parhau i ddangos perfformiad sefydlog, gyda'r **amser a gymerir i gyflawni cais am waith cynnal a chadw**

**yn gyson ar 6.9 diwrnod ers dechrau'r flwyddyn**. Tra bod lefel bodlonrwydd gyda'r gwaith a wneir yn uchel, mae yna rai wedi mynegi anfodlonrwydd gyda diffyg cyfathrebu rhwng contractwyr â rheolwyr safle, a byddwn yn atgyfnerthu'r angen i gyfathrebu gyda chontractwyr pan yn lansio ein cytundebau fframwaith newydd yn y flwyddyn newydd.

4.13 Mae'r amser a gymerir i **osod offer Teleofal hefyd wedi aros yn sefydlog ers dechrau'r flwyddyn ac yn cymryd 4.1 diwrnod ar gyfartaledd** (sy'n cymharu gyda thua 53 diwrnod pan gymerwyd y gwasanaeth drosodd). Mae gwaith ar droed i geisio lleihau'r amser ymhellach.

4.14 Mae gwaith **Cynllun Rheoli Carbon** y Cyngor wedi arwain at ostwng lefelau allyriadau carbon o adeiladau'r Cyngor, **gyda 3.15% yn llai fis Medi 2019 nag ydoedd 12 mis ynghynt.** Rhaid cofio bod bob 1% o ostyngiad yn golygu arbediad ariannol i'r Cyngor o thua £40,000. Rydym eisoes hefyd wedi dechrau cynllunio ar gyfer 'Cynllun Rheoli Carbon 3' fydd yn weithredol o 2020/21 ymlaen.

4.15 Mae'r **canran o adeiladau gyda'r ystod cyflawn o systemau diogelwch yn eu lle** wedi codi ers dechrau'r flwyddyn galendr i 82% ( o 76% ar ddechrau'r flwyddyn ariannol). Rhaid nodi mai mesur yr adeiladau sydd wedi cael archwiliad blynyddol *newydd* yr ydym. Yn ddelfrydol wrth gwrs fe ddylem fod yn cadw at y rhaglen ond o fethu a gwneud hynny, mae archwiliadau hanesyddol yn parhau i fod yn ddilys ac mae'r gwasanaeth yn hyderus nad oes problemau iechyd a diogelwch yn ein adeiladau. Problemau staffio sydd wedi golygu nad yw'r ffigwr hwn yn 100%, gyda salwch un aelod o staff wedi arwain at fwlch yn ein gwasanaeth. Mae'r sefyllfa yma wedi amlygu problem y mae'n rhaid i ni ei wynebu o ran cynllunio ein gweithlu i'r dyfodol, sef y risg o fethu cyflogi gweithwyr gyda'r sgiliau technegol a ieithyddol angenrheidiol. Rydym yn ymchwilio i'r posibilrwydd o hyfforddi staff yn fewnol, ac yn falch y bydd hyfforddai proffesiynol yn ymuno â'r tîm fis Mawrth. Mae materion staffio, sef problemau i recriwtio staff cymwys, hefyd yr un mor wir ar gyfer yr Uned Stadau, ac felly mae angen canfod datrysiadau yn fuan.

4.16 Mae'r **gwasanaeth difa pla** yn parhau i dderbyn adborth ardderchog gyda **cwsmeriaid yn gyson yn rhoi sgôr o 10 allan o 10 i'r gwasanaeth**, a'r gwasanaeth yn parhau i fod yn fasnachol hyfyw. Cafwyd rhai enghreifftiau yn ddiweddar lle bu i'r sgôr a roddwyd ostwng i 9 ond oedi wrth anfonebu oedd y rheswm dros hynny ac mae trefniadau ar droed i wella ein trefniadau.

4.17 Mae'r **Gwasanaeth Stadau** yn amlwg dan bwysau (gyda'r **sgôr cyfartalog misol a roddwyd gan gleientiaid dros y cyfnod yn amrywio rhwng 7 a 9 allan o 10).** Yr amser a gymerir i gyflawni gwaith a chyfathrebu'r hyn sy'n digwydd, yn fwy nag ansawdd y gwaith ei hun, yw asgwrn y gynnen. Mae'r gwasanaeth wedi dioddef o drosiant staff sylweddol dros y blynyddoedd (gydag unigolion yn aml yn symud ymlaen i swyddi gyda chyflogau uwch). Rwyf wedi herio ai diffyg adnodd sylfaenol yw'r broblem ynteu y ffaith nad yw'r lefelau staffio llawn wedi bod yn ei le am gyfnod sylweddol o amser. Mae'r Gwasanaeth yn hyderus pe byddent â lefelau staffio llawn yn

barhaus, na fyddai'r diffygion yn amlygu eu hunain. Mae'r Gwasanaeth yn cymryd camau i geisio datrys y broblem drwy newid rhaniad dyletswyddau; parhau i hysbysebu swyddi gwag ac ystyried a fyddai hyfforddeion yn helpu'r sefyllfa.

## 5 SEFYLLFA ARIANNOL/ ARBEDION

5.1 Mae yna un cynllun arbedion sy'n dyddio yn ôl i 2017/18, sef 'Adolygu'r strwythurau a lleoliadau presennol y Gwasanaeth Tai' lle mae yna £41,000 o arbedion eisoes wedi eu gwireddu, ond mae £89,000 yn weddill ac mae'n amlwg bellach nad yw'r cynlluniau oedd dan sylw ar gyfer ei gyflawni am wireddu'r arbedion dan sylw. Mae'r Adran, felly, yn ail gychwyn y broses o adnabod cynllun arbedion amgen.

5.2 Un o gynlluniau arbedion y flwyddyn ariannol bresennol yw 'Lleihau Dibynniaeth ar Lety Dros Dro Trwy Fuddsoddi Mewn Llety Pwrpasol', ac un o'r cynlluniau oedd am gyfrannu at wireddu'r arbediad oedd codi 4 "pod" llety yng Nghaernarfon. Bu ychydig o oedi cyn cychwyn adeiladu'r llety gan bod angen i Cadw wneud gwaith ar y safle. Mae'n bosib, felly, na fydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol ond rwy'n hyderus y bydd y cynllun yn dod i'w derfyn yn foddhaol a'r arbediad o £25,000 yn cael ei wireddu.

## 6 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

6.1 Dim i'w nodi.

## 7 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

7.1 **Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf yn fodlon fod cynnwys Rhan 5 yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa. O ran yr anallu i wireddu'n llawn arbedion y cynllun i adolygu strwythurau a lleoliadau'r Gwasanaeth Tai, mae'n rhesymol i ganiatáu amser i Bennaeth yr adran newydd ddatblygu cynllun amgen.

7.2 **Barn yr Aelod Lleol:**

7.2.1 Ddim yn fater lleol.

7.3 **Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

7.3.1 Dim i'w nodi.


---


**Atodiadau**


Atodiad 1 – Mesurau Perfformiad

Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet Tai ac Eiddo 28 Ionawr 2020


Atodiad Mesurau Perfformiad








**EIDDO 4 -**
**Canran newid mewn allyriadau carbon o adeiladau o'i gymharu â'r un adeg y llynedd**




**EIDDO 5 -**
**Canran adeiladau gyda'r ystod cyflawn o systemau diogelwch mewn lle.**





**EIDDO 6**
**Nifer o gwsmeriaid (allan o'r 10 a holwyd) oedd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth a gawsant gan yr Uned Difa Pla**



**EIDDO 7**

**Nifer o gwsmeriaid (allan o'r 10 a holwyd) oedd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth a gawsant gan yr Uned Stadau**





# PSR002 Amser Cwblhau


## 2019/20

| Nifer | Cyfartaledd | Amser Lleiaf | Amser Hiraf |
|---|---|---|---|
| 54 | 252 | 18 | 903 |


**Math o Addasiadau**





**Dyddiau (calendar) i Gwblhau**




ADDRESS and WPNAME



# Map yn Dangos Tai Gwag wedi dod yn ol i ddefnydd yn ystod y cyfnod





Nifer o unedau yn ol i'w ddefnydd

**56**


Y nifer o bobl wedi eu cartrefu wrth ddod ar tai hyn yn no li ddefnydd.


**115**





| **TAI14** 2019/20 | Nifer | Amser Hiraf |
|---|---|---|
| | 70 | 429 |
| | **Cyfartaledd** | **Amser Lleiaf** |
| | 78.1 | 5 |

Dyddiau (calendar) i Gwblhau




Math o Addasiadau




# TAI12
# Lleoliad achosion 2019/20

**Tai Rhent**

**215**


Lleoliad Tai Rhent




TAI012 Nifer y pobl a gynorthwywyd drwy ddileu peryglon o gartrefi wedi eu rhentu.

**620**

Nifer mesul Ty Rhent



**ADRODDIAD I'R CABINET**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **28 Ionawr 2020** |
| **Aelod Cabinet** | **Y Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid** |
| **Pwnc** | **Trosolwg Arbedion:**<br>**Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion** |
| **Swyddog Cyswllt** | **Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid** |

---

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd calonogol tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2019/20 a blynyddoedd blaenorol.

---

## 1. CYFLWYNIAD / CEFNDIR

Mae'r adroddiad yma yn adroddiad trosolwg rheolaidd am sefyllfa arbedion yn dilyn adroddiadau perfformiad yr Aelodau Cabinet unigol a gyflwynwyd yn ystod mis Ionawr.

Yn Strategaeth Ariannol y Cyngor ers 2015/16, mae gwerth £32m o arbedion wedi eu cymeradwyo i'w gwireddu yn ystod y cyfnod 2015/16 i 2019/20. Adroddir yma ar arbedion 2019/20, sydd werth £5,156,430 ynghyd a'r arbedion sydd eto i'w cyflawni o flynyddoedd blaenorol.

Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, ac mae adroddiadau perfformiad yr Aelodau, sy'n cael eu cyflwyno yn rheolaidd i gyfarfodydd y Cabinet, yn manylu ar gynnydd y cynlluniau arbedion unigol o fewn eu portffolios, fel y mae'r sefyllfa ar y pryd. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

## 2. CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 – 2018/19

2.1 Mae **Atodiad 1** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran yn erbyn y targed arbedion oedd wedi ei osod iddynt o 2015/16 - 2018/19, cyfanswm o bron i £27m. Mae'n galonogol i mi allu adrodd bod bron i £26m, neu 97%, o'r cynlluniau yma wedi eu gwireddu, a dim ond ychydig o lithriad gyda'r gweddill.

2.2 Mae'r llithriad yma yn bennaf ar rhai o gynlluniau 2017/18. Bu cynnydd yn ddiweddar gyda rhai o'r cynlluniau ond mae'r her o wireddu eraill yn parhau.

2.3 Mae dau gynllun sef *Lleihau amser a/neu godi ffi am yr elfen gwarchod o fewn y cynllun brecwast am ddim* gwerth £100k a rhan o gynllun *Cynyddu ffi am y clwb gofal cyn ysgol* gwerth £10k (gweler hefyd rhan 3.2 o'r adroddiad isod) gan yr Adran Addysg yn destun pryder. Nid yw'r arbedion hyn yn cael eu gwireddu ac mae cynllun amgen sef *Defnyddio cyllideb wrth gefn 'Integreiddio – CDU/Datganiadau'* gwerth £110k yn cael ei gynnig gan yr Adran i ddisodli'r arbedion. Bydd yr Aelod Cabinet dros Addysg yn cyflwyno'r argymhelliad fel rhan o'r Adroddiad Perfformiad i'r Cabinet ar 28 Ionawr 2020.

2.4 Rhagwelir risgiau efo cyflawni gweddill yr arbedion ar dri o gynlluniau'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant sef *Awtomeiddio prosesau cyllidol yr Adran, Gwella effeithlonrwydd gweithwyr maes* a *Chomisiynu'n ddoeth Gwasanaeth Iechyd Meddwl.* £142k yw'r cyfanswm sy'n weddill ar y tri chynllun hyd at 2018/19. Bydd yn rhaid i'r Pennaeth a'r Aelod Cabinet ystyried cynnig cynlluniau arbedion amgen.

2.5 Mae risgiau sylweddol i gyflawni arbedion 2018/19 a'r blynyddoedd dilynol ar un cynllun gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd sef *Adolygiad Dechrau i'r Diwedd*. Mae'r cynllun wedi bod yn destun adolygiad gan ail ymweld â thybiaethau'r model 'Dechrau i'r Diwedd' gwreiddiol gan ei bod yn ymddangos fod arbedion ariannol o'r cynllun wedi bod yn rhy uchelgeisiol yn sgil newid yn yr hinsawdd bresennol yn y maes plant. Gyda phroffil poblogaeth plant mewn gofal wedi newid, cyfartaledd cost lleoliadau preswyl wedi cynyddu, ynghyd â chymhlethdod achosion. Mae yna gost ariannol uchel i'r Cyngor i gyllido lleoliadau preswyl i blant y tu allan i'r Sir oherwydd bod eu hanghenion yn gymhleth a dwys, ac nad oes modd adnabod lleoliadau i gyfarfod yr anghenion yn lleol ym mhob achos. Mae Tasglu Cyllideb Plant wedi ei gomisiynu sydd yn rhoi sylw i faterion ariannol yr Adran gan gynnwys y maes yma.

2.6 Mae risgiau o gyflawni arbedion y cynllun *Adolygu'r strwythurau a lleoliadau presennol yr Adran Tai* gwerth £89k. Mae'r Adran yn edrych i ddod o hyd i gynllun arbedion amgen.

## 3. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2019/20

3.1 Mae **Atodiad 2** yn crynhoi'r sefyllfa o ran gwireddu cynlluniau arbedion 2019/20. O'r 121 o gynlluniau sydd wedi eu proffilio am y flwyddyn, mae 81 (gwerth bron i £2.5m neu 48%) wedi eu gwireddu a 17 (gwerth £1.2m neu 23%) pellach ar drac i gyflawni'n llawn ac amserol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae 22 o gynlluniau unai yn llithro neu gyda rhai risgiau i gyflawni a 2 gynllun sydd eto i dderbyn cymeradwyaeth gan y Cabinet.

3.2 Nid yw'r cynllun *Cynyddu'r ffi am y clwb gofal cyn ysgol o £0.80 i £1* sydd gan yr Adran Addysg, yn gwireddu'r arbedion ar y lefel oedd yr Adran yn ei ragweld, gyda'r rhagolygon diweddaraf yn awgrymu diffyg o oddeutu £10k yn yr incwm. Mae cynllun arbedion amgen yn cael ei gynnig i ddisodli'r £10k (gweler hefyd rhan 2.3 uchod).

3.3 Mae’r Adran Amgylchedd yn rhagweld y bydd rhai risgiau i gyflawni arbedion ar y cynllun C*ynyddu’r nifer meysydd parcio talu ac arddangos a chynyddu ffioedd parcio* gwerth £37.5k yn 2019/20. Mae Grŵp Tasg wedi ei sefydlu fydd yn adrodd i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Ebrill 2020 ac wedyn i'r Tîm Arweinyddiaeth ym Mehefin.

3.4 Mae gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant gwerth £1m o gynlluniau sydd yn llithro a gyda rhai risgiau i gyflawni. Bu oediad gyda 4 cynllun, gwerth £250k, ond bellach maent yn symud yn eu blaen. Mae’r Adran yn rhagweld rhai risgiau i gyflawni arbedion dau gynllun sef *Integreiddio a thrawsnewid Gwasanaethau Pobl Hyn* (£510k) ac *Ymestyn egwyddorion Cynllun Peilot Alltwen ar draws y gwasanaeth* (£133.5k). Mae adnodd ychwanegol wedi ei roi mewn 3 ardal ac yn gobeithio penodi ymhellach trwy ddefnyddio adnodd y Bwrdd Iechyd a Chronfa Gofal Integredig (ICF), i gefnogi a chryfhau'r gwaith yma. Hefyd mae camau yn cael eu cymryd i newid diwylliant a dulliau gweithio sydd yn greiddiol i gyflawni’r arbedion.

Yn ogystal mae yna risgiau sylweddol i gyflawni arbedion y cynllun *Gwella effeithlonrwydd Gweithwyr Maes* (£75k) ac mae her sylweddol i gyflawni'r arbedion ar y cynllun *Comisiynu’n ddoeth Gwasanaeth Iechyd Meddwl* (£60k). Er yr ymdrechion i gefnogi unigolion a theuluoedd yn fwy effeithiol, mae’r galw am wasanaethau cefnogol yn cynyddu. Ar hyn o bryd mae’n edrych yn annhebygol y bydd y ddau gynllun yma yn cyflawni’r arbedion yn y dyfodol agos ac os o gwbl.

3.5 Mae’r cynllun *Cynyddu incwm gorfodaeth stryd drwy ddirwyo mwy o unigolion sy’n gollwng sbwriel*, gwerth £10k yn 2019/20 gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn cael ei amlygu fel cynllun efo risgiau sylweddol erbyn hyn. Mae gwaith pellach angen ei wneud er mwyn gweithredu’r cynllun yma.

3.6 Yn gyffredinol, mae’r cynnydd sydd wedi ei wneud i wireddu cynlluniau arbedion 2019/20 yn dderbyniol, ond mae arwyddion fod rhai trafferthion cyflawni yn cael eu hamlygu. Gan ein bod yn ceisio effeithio ar drigolion Gwynedd cyn lleied â phosib drwy gyflawni arbedion effeithlonrwydd, mae’n llawer anoddach na thorri gwasanaethau.

## 4. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2020/21 YMLAEN

4.1 Er gwybodaeth rhestrir arbedion 2020/21 ymlaen, fesul Adran yn **Atodiad 3.** Bydd y cynlluniau unigol yn cael eu monitro yn ystod y flwyddyn, ond yn gynamserol i adrodd ar hyn o bryd.

## 5. CASGLIAD

5.1 Er bod rhai adrannau wedi gwireddu eu holl gynlluniau arbedion, mae'n anorfod bod gwireddu bron i £28.4m o arbedion ers Ebrill 2015 wedi bod yn heriol. Mae angen mwy o amser i gynllunio a gweithredu'n briodol ar rai cynlluniau. Fodd bynnag, yn gyffredinol, rwyf yn fodlon gyda'r cynnydd sydd wedi ei wneud i wireddu cynlluniau arbedion y cyfnod hwn ac yn ddiolchgar i'r holl adrannau a'r Aelodau Cabinet am sicrhau'r llwyddiant yma. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i geisio gwireddu'r cynlluniau sydd wedi llithro, a bydd yr holl Aelodau Cabinet yn parhau i fonitro'r sefyllfa, gan weithredu fel bo angen er sicrhau'r nôd.

5.2 Felly, gofynnaf i'r Cabinet nodi'r cyrhaeddiad a amlinellir yn yr adroddiad yma tuag at wireddu'r cynlluniau arbedion.

**Barn yr Aelod Lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau:**
Atodiad 1 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2015/16 - 2018/19 fesul Adran
Atodiad 2 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2019/20 fesul Adran
Atodiad 3 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2020/21 ymlaen fesul Adran

**ATODIAD 1**

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 I 2018/19 FESUL ADRAN

| **Adran** | **Cyfanswm Arbedion**<br>**£** | **Cynlluniau wedi eu gwireddu**<br>**£** | **Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro**<br>**£** | *nifer* | **Cynlluniau sydd hefo rhai risgiau i gyflawni**<br>**£** | *nifer* | **Cynlluniau sydd eto i dderbyn cymeradwyaeth gan y Cabinet**<br>**£** | *nifer* | **Sylwadau'r Pennaeth Cyllid** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | 1,207,310 | 1,078,629 | 28,681 | *1* | 100,000 | *1* | - | | Mae bid wedi ei gyflwyno ar gyfer adnoddau ychwanegol i gyflymu'r gwaith ar gynllun *Ffordd Gwynedd - Uned Cyflogau a Chontractau* , ond yn y cyfamser mae'r Adran yn pontio'r diffyg o (£28,681). Nid yw'r cynllun i *Leihau amser a / neu godi ffi am yr elfen gwarchod o fewn y cynllun brecwast am ddim i blant ysgolion cynradd* wedi ei wireddu, ac felly yn gorwario. Cynllun amgen yn cael ei gynnig gan yr Adran i ddisodli'r arbedion o £100k nad yw'n debygol o wireddu. Bydd yr Aelod Cabinet dros Addysg yn cyflwyno'r wybodaeth fel rhan o'r Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Addysg i'r Cabinet ar 28 Ionawr 2020. |
| Ysgolion | 4,037,000 | 4,037,000 | - | | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Amgylchedd | 2,217,903 | 2,217,903 | - | | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 1,707,178 | 1,707,178 | - | | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Cyllid | 1,027,256 | 1,027,256 | - | | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Economi a Chymuned | 2,394,432 | 2,394,432 | - | | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |

**ATODIAD 1**

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 I 2018/19 FESUL ADRAN

| Adran | Cyfanswm Arbedion<br>£ | Cynlluniau wedi eu gwireddu<br>£ | Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro<br>£ | *nifer* | Cynlluniau sydd hefo rhai risgiau i gyflawni<br>£ | *nifer* | Cynlluniau sydd eto i dderbyn cymeradwyaeth gan y Cabinet<br>£ | *nifer* | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 5,449,141 | 5,307,141 | - | | 142,000 | *3* | - | | Mae'r cynllun *Awtomeiddio prosesau cyllidol yr Adran* wedi rhan-gyflawni ac er mwyn cwrdd â'r diffyg o £64k mae angen ystyried os oes modd cyflawni'r arbediad trwy ddulliau amgen. O ran y cynllun *Gwaith effeithlonrwydd gweithwyr maes* gwerth cyfanswm o £113k (£38k yn 2017/18) efo risgiau sylweddol o gyflawni, ac mae penderfyniad wedi ei wneud i gadw staff ymlaen i wireddu arbedion ehangach. Mae yna risgiau sylweddol o wireddu arbedion y cynllun *Comisiynu'n ddoeth Gwasanaeth Iechyd Meddwl* sef cyfanswm o £100k (£40k yn 2018/19), mae bwriad i adolygu'r sefyllfa pan fydd yr Adran yn ystyried ail-broffilio neu gyflwyno dulliau amgen o gyflawni. |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 2,301,798 | 2,051,518 | - | | 250,280 | *1* | - | | Mae'r cynllun *Dechrau i'r Diwedd* wedi bod yn destun adolygiad. Gwelwyd newid dros y blynyddoedd diwethaf yn y math o achosion ac felly yr anghenion, a lleihad yng nghyfraniadau iechyd, gan nad yw'r mathau o achosion yn gymwys. Mae'r ffactorau yma wedi arwain at gynnydd yn y gôst net ar y Cyngor. Gwelwyd lleihad yn y nifer y nosweithiau plant mewn gofal sydd yn unol â'r rhagolygon hyd at ddiwedd 2017/18. Ond ers 2018/19 bu cynnydd yn y tueddiad ynghyd â newid yn natur yr angen ac felly mae risgiau sylweddol i gyflawni arbedion 2018/19 ymlaen. Mae Tasglu Cyllideb Plant wedi ei gomisiynu i roi sylw i faterion ariannol yr Adran sydd yn cynnwys y maes yma. |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 5,044,250 | 4,926,250 | 33,000 | *1* | - | | 85,000 | *1* | Mae un cynllun yn llithro, gyda cynllun amgen i ail-strwythuro a chynllun Teledu Cylch Cyfyng yn cyfarch y gwahaniaeth. Mae'r cynllun *Trefniadau Fflyd* gwerth £85k, eto i dderbyn cymeradwyaeth y Cabinet. |
| Ymgynghoriaeth | 387,000 | 387,000 | - | | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |

**ATODIAD 1**

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 I 2018/19 FESUL ADRAN

| **Adran** | **Cyfanswm Arbedion**<br>**£** | **Cynlluniau wedi eu gwireddu**<br>**£** | **Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro**<br>**£ - *nifer*** | | **Cynlluniau sydd hefo rhai risgiau i gyflawni**<br>**£ - *nifer*** | | **Cynlluniau sydd eto i dderbyn cymeradwyaeth gan y Cabinet**<br>**£ - *nifer*** | | **Sylwadau'r Pennaeth Cyllid** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 179,070 | 165,270 | 13,800 | *1* | - | | - | | Mae llithriad ar y cynllun *Arbedion yng nghyllideb y Crwner* gwerth £13.8k gan ei fod yn seiliedig ar ragamcaniad a wnaethpwyd rhai blynyddoedd yn ôl ond sydd heb ddigwydd eto. |
| Tai ac Eiddo | 246,420 | 157,420 | - | | 89,000 | *1* | - | | Mae risgiau o gyflawni arbedion y cynllun *Adolygu'r strwythurau a lleoliadau presennol y Gwasanaeth Tai* gwerth £89k. Mae'r Adran yn edrych i ddod o hyd i gynllun arbedion amgen. |
| **Is-gyfanswm** | **26,198,758** | **25,456,997** | **75,481** | *3* | **581,280** | *6* | **85,000** | *1* | |
| Arbedion Rheolaethol | 434,960 | 434,960 | - | | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| **CYFANSWM** | **26,633,718** | **25,891,957** | **75,481** | *3* | **581,280** | *6* | **85,000** | *1* | **Yn nhermau ariannol (£), mae 97% o gynlluniau arbedion 2015/16 - 2018/19 wedi eu gwireddu.** |

ATODIAD 2

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2019/20 FESUL ADRAN

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2019/20 £ | nifer | Cynlluniau wedi eu gwireddu £ | nifer | Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol £ | nifer | Cynlluniau sydd yn llithro a gyda rhai risgiau i gyflawni £ | nifer | Cynlluniau sydd eto i dderbyn cymeradwyaeth gan y Cabinet £ | nifer | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | 314,840 | *4* | 271,840 | *3* | - | | 43,000 | *1* | - | | Nid yw'r cynllun *Cynyddu'r ffi am y clwb gofal cyn ysgol o £0.80 i £1 gwerth £43k,* yn gwireddu'r arbedion ar y lefel oedd yr Adran wedi ei ragweld, gyda'r rhagolygon diweddaraf yn awgrymu diffyg o oddeutu £10k yn yr incwm. Cynllun amgen yn cael ei gynnig gan yr Adran i ddisodli gwerth £10k o'r arbedion nad yw'n debygol o wireddu. |
| Amgylchedd | 249,880 | *13* | 59,380 | *9* | 153,000 | *3* | 37,500 | *1* | - | | Mae'r Adran yn rhagweld risgiau i gyflawni y cynllun arbedion *Cynyddu'r nifer meysydd parcio sy'n rai talu ac arddangos a chynyddu ffioedd parcio* gwerth £37.5k yn 2019/20. Mae'r cynllun *Teithio Staff Cyngor Gwynedd* wedi derbyn cymeradwyaeth y Cabinet ar 5/11/19 a chytunwyd i fabwysiadu cynllun amgen sydd yn lleihau swm yr arbedion o £130k i £118k. |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 405,450 | *13* | 375,450 | *12* | | | - | | 30,000 | *1* | Mae'r cynlluniau arbedion sydd wedi eu proffilio ar gyfer 2019/20 eisioes wedi eu gwireddu gyda'r cynllun *Uno Dysgu a Datblygu ac Uned Datblygu Gweithlu* gwerth £30k, eto i dderbyn cymeradwyaeth gan y Cabinet. |
| Cyllid | 558,650 | *19* | 480,560 | *16* | 74,340 | *2* | 3,750 | *1* | - | | Mae mwyafrif o gynlluniau'r Adran unai wedi eu gwireddu neu ar drac i gyflawni'n amserol cyn ddiwedd y flwyddyn ariannol gyda un cynllun sef *Trefn slipiau electronig cyflog i bawb* gwerth £3.75k, yn symud yn ei flaen. |
| Economi a Chymuned | 318,580 | *12* | 211,080 | *6* | 45,000 | *1* | 62,500 | *5* | - | | Mae amrediad o gynlluniau'r Adran unai wedi eu gwireddu neu ar drac i gyflawni'n amserol cyn ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r 5 sy'n weddill, sef 3 cynllun sy'n ymwneud â pharcio (*Cysoni ffioedd i safleoedd newydd, sefydlu ffioedd yn Dinas Dinlle ac hefyd Adolygu ffioedd a threfniadau yn Storiel* ) , *Cynyddu'r ffi i ysgolion am y gwasanaeth Archifau* a *Dileu 1 swydd o Wasanaeth Twristiaeth a Marchnata* i gyd yn symud yn eu blaen. |

**ATODIAD 2**

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2019/20 FESUL ADRAN

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2019/20 £ | nifer | Cynlluniau wedi eu gwireddu £ | nifer | Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol £ | nifer | Cynlluniau sydd yn llithro a gyda rhai risgiau i gyflawni £ | nifer | Cynlluniau sydd eto i dderbyn cymeradwyaeth gan y Cabinet £ | nifer | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 1,465,000 | 15 * | 335,000 | 4 | 51,500 | 2 | 1,078,500 | 10 | - | | Bu oediad gyda 4 cynllun, gwerth £250k, ond bellach yn symud yn eu blaen. Mae'r Adran yn rhagweld rhai risgiau i gyflawni arbedion 4 cynllun sef *Integreiddio a thrawsnewid Gwasanaethau Pobl Hyn* (£510k), *Ymestyn egwyddorion Cynllun Peilot Alltwen ar draws y gwasanaeth* (£133.5k), *Cydweithio â'r trydydd sector i sicrhau darparwr gofal dydd newydd yng Nghricieth a Blaenau Ffestiniog* (£25k) ac *Adolygu pecynnau anableddau corff gan gwrdd ag amcanion mewn ffordd amgen* (£25k). Yn ogystal mae yna risgiau sylweddol i gyflawni arbedion y cynllun *Gwella effeithlonrwydd Gweithwyr Maes* (£75k) a'r cynllun *Comisiynu'n ddoeth Gwasanaeth Iechyd Meddwl* (£60k). |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 272,790 | 9 | 146,820 | 6 | 6,150 | 2 | 119,820 | 1 | - | | Mae 2 gynllun ar drac i gyflawni'n amserol. Mae'r *Cynllun Dechrau i'r Diwedd* yn llithro, ac mae Tasglu Cyllideb Plant wedi ei gomisiynu gan y Prif Weithredwr i roi sylw i faterion ariannol yr Adran a bydd yr arbediad yma yn cael ei adolygu fel rhan o'r broses. |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 301,350 | 13 | 100,000 | 5 | 113,350 | 4 | 40,000 | 3 | 48,000 | 1 | Llithrad mewn cyflawni arbedion 2 gynllun ond yn symud yn eu blaen ac yn gobeithio gwireddu'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, gyda risgiau sylweddol i gyflawni arbedion ar y cynllun *Cynyddu incwm gorfodaeth stryd drwy ddirwyo mwy o unigolion sy'n gollwng sbwriel,* gwerth £10k yn 2019/20. Targed incwm yn uchelgeisiol, posib fod angen edrych ar gynllun gwahanol. Mae'r cynllun *Trefniadau Fflyd* gwerth £48k, eto i dderbyn cymeradwyaeth gan y Cabinet. |
| Ymgynghoriaeth | 126,500 | 7 | 126,500 | 7 | - | | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 188,310 | 8 | 188,310 | 8 | - | | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Tai ac Eiddo | 189,680 | 5 | 189,680 | 5 | - | | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Arbedion Rheolaethol | 765,400 | 3 | - | | 765,400 | 3 | - | | - | | Yr arbedion ar drac i gyflawni'n amserol. |
| **CYFANSWM** | **5,156,430** | 121 | **2,484,620** | 81 | **1,208,740** | 17 | **1,385,070** | 22 | **78,000** | 2 | **Yn nhermau ariannol (£), mae 48% o gynlluniau arbedion 2019/20 eisioes wedi eu gwireddu a 23% pellach ar drac i gyflawni'n amserol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.** |

** cynllun wedi ei wireddu yn rhannol mewn un blwyddyn ariannol ond eto i'w wireddu yn llawn.*

**ATODIAD 3**

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2020/21 YMLAEN FESUL ADRAN

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2020/21 ymlaen | | | Proffil | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 2020/21 | | 2021/22 | | 2022/23 | | 2023/24 | |
| | £ | *nifer* | | £ | *nifer* | £ | *nifer* | £ | *nifer* | £ | *nifer* |
| Addysg | 280,560 | *2* | * | 215,560 | *2* | 65,000 | *1* | - | | - | |
| Amgylchedd | 273,120 | *12* | * | 186,870 | *11* | 73,750 | *4* | 12,500 | *1* | - | |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 413,250 | *8* | * | 195,500 | *7* | 117,750 | *3* | 100,000 | *1* | - | |
| Cyllid | 236,800 | *7* | * | 111,800 | *6* | 100,000 | *3* | 25,000 | *1* | - | |
| Economi a Chymuned | 372,500 | *9* | * | 167,500 | *8* | 166,250 | *2* | 38,750 | *1* | - | |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 1,307,000 | *10* | * | 928,250 | *9* | 178,750 | *3* | 200,000 | *1* | - | |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 1,113,520 | *3* | * | 326,310 | *3* | 483,620 | *2* | 279,750 | *1* | 23,840 | *1* |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 1,309,500 | *18* | * | 510,750 | *15* | 611,250 | *7* | 187,500 | *4* | - | |
| Ymgynghoriaeth | 59,500 | *3* | | 59,500 | *3* | - | | - | | - | |
| Tai ac Eiddo | 296,340 | *9* | * | 145,080 | *6* | 151,260 | *4* | | | | |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 19,060 | *3* | | 19,060 | *3* | - | | - | | - | |
| **CYFANSWM** | **5,681,150** | ***84*** | | **2,866,180** | ***73*** | **1,947,630** | ***29*** | **843,500** | ***10*** | **23,840** | ***1*** |